# Y Bont

Rhifyn 74
ISSN 1464-4282

Clybiau Plant Cymru
KIDS' CLUBS
www.clybiauplantcymru.org

Haf 2020



## Rydym yn gweld eich eisiau ac rydym yma ichi.

## Cadwch yn Ddiogel!

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260
Yn gweithio mewn partneriaeth â:
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhifyn 74 Haf 2020**

## Yn y rhifyn hwn...

Llythyr gan y Prif Swyddog Gweithredol.........2
Penblwydd Hapus i Ni!..........4 & 5
Ffocws ar Orllewin Cymru...6 & 7
Ffocws ar Ogledd Cymru.....8 & 9
Ffocws ar Dde Ddwyrain Cymru............................10 & 11
Hyfforddiant...................12 & 13
Iechyd Meddwl a Covid-19......14
Syniadau Codi Arian................15
Prosiectau......................16 & 17
Diwrnod Chwarae Cenedlaethol 2020.......................................18
Bywyd wedi Covid-19............19
Cyfarfodydd Rhwydwaith.......20
Marchnata..........................21
Arolygiaeth Gofal Cymru...22 & 23
Gweithgareddau....................24

Ymwadiad:
Gwneir pob ymdrech gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i sicrhau bod cynnwys ein newyddlen yn gywir Dylech nodi nad yw Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cymeradwyo unrhyw un o'r gwasanaethau, clybiau, gweithgareddau nac erthyglau, ac ni fydd yn gyfrifol am unrhyw weithred ar ran unrhyw berson neu grŵp o bobl sy'n darllen y newyddlen. Er gwybodaeth yn unig y dosberthir y newyddlen; heb gyfrifoldeb na rhwymedigaeth gyfreithiol.

Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260

Swyddfa Gofrestredig:
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs,
Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien,
Caerdydd. CF14 5UW
Ffôn: 029 2074 1000
Ffacs: 029 2074 1047
E-bost: info@clybiauplantcymru.org
Y We: www.clybiauplantcymru.org

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Annwyl Aelod o Glwb Gofal Plant All-Ysgol



Hoffwn ddechrau'r newyddlen hon â gair o ddiolch i'm staff.

Ar Fawrth 17eg yn ôl yr arweiniad a gawsom gan Lywodraeth Cymru, fe wnaethom oll symud i weithio o gartref. Roeddem wedi gwneud rhywfaint o gynllunio wrth gefn ar gyfer hyn yn ystod yr wythnos flaenorol, felly roeddem ni'n hyderus y byddai gan y staff yr adnoddau digonol i'w galluogi i gysylltu a dechrau gweithio o gartref â bron ddim ymyrraeth. Ar adeg ysgrifennu hyn, rydym yn dal gartref, yn ymdrechu i gefnogi'r Sector Allysgol wrth iddynt frwydro i oroesi.

Dros yr ychydig wythnosau diwethaf, rwy'n teimlo bod fy nhîm i wedi rhagori, ac wedi ateb popeth a ofynnwyd ganddynt; a gofynnwyd llawer ganddynt o ran yr holl newidiadau mewn arweiniad neu ddarn o wybodaeth a oedd yn angenrheidiol. Rwy'n gwybod, o'r adborth a gafwyd, eich bod oll yn ddiolchgar, ac rwy'n siŵr eich bod chi, fel finnau, yn ddiolchgar iddyn nhw am y gefnogaeth y maen nhw wedi ei rhoi, mewn adeg anodd i bawb. Mae'r staff wedi bod yn ffonio ac yn e-bostio lleoliadau, yn casglu gwybodaeth a data sydd wedi galluogi Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i fod yn llais i chi; llais y Sector Gofal Plant Allysgol ar hyd a lled Cymru.

Mae'r wybodaeth werthfawr yr ydych chi wedi ei darparu ar yr heriau yr ydych yn eu hwynebu, yn ogystal â'n dealltwriaeth o natur ac anghenion y Sector, wedi ein galluogi i weithio gyda'n partneriaid yn CWLWM i gynhyrchu arweiniad a diweddariadau, yn ogystal ag i weithio gyda Llywodraeth Cymru i geisio sicrhau ariannu priodol i'r sector.

Mae'r tîm Hyfforddi wedi newid eu dull o gyflenwi, a dysgu ar-lein newydd yn cael ei ddatblygu a'i gyflenwi. Mae'r cyswllt hwn â'r dysgwyr sydd dymuno parhau wedi ein galluogi i ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio.

Mae Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant wedi bod yn cefnogi Rheolwyr a Gweithwyr Chwarae mewn ffordd wahanol, ac mae pob agwedd ar y gyfundrefn, yn cynnwys yr adrannau Gweinyddol ac Ariannol, wedi addasu a derbyn yr arferol newydd, ac wedi dal i ymdrechu i roi'r gefnogaeth orau bosibl i'r Sector. Mae fy Uwch Dîm wedi ymateb i bob her yr wyf wedi ei hargymell, ac ni allaf ddiolch yn ddigonol am y gefnogaeth y maen nhw, a'u timau, wedi ei rhoi i mi.

Neges glir sy'n dod yn ôl gan aelodau o'm staff sydd mewn cysylltiad cyson â chi, boed fel Rheolwyr/Pwyllgorau/Gweithwyr Chwarae neu ddysgwyr, yw pa mor falch y maent i fod yn cefnogi sector sydd mor hanfodol. Mae'r argyfwng hwn wedi dangos pa mor annatod yw eich lleoliadau i'ch cymunedau, ac mae rhai enghreifftiau rhyfeddol o'r ffordd yr ydych wedi parhau i gefnogi eich teuluoedd, hyd yn oed yn ystod yr adegau anoddaf, wedi eu cynnwys yn y rhifyn hwn o'r Bont. Er y gallwn weld eich pryder a'ch rhwystredigaeth yn yr amgylchiadau presennol hyn, nid ydynt wedi pylu eich angerdd, eich ymroddiad na'ch awydd i ddal i wneud y gorau i'ch cymuned. Mae'r lles a ddaw o chwarae, fel erfyn dysgu ond hefyd fel modd o feithrin gwydnwch ac atgyfnerthu iechyd meddyliol a lles plant, wedi dod hyd yn oed yn gliriach yn ystod y cyfnod o gau ysgolion. A chwarae erioed wedi bod yn ethos canolog i Glybiau Gofal Plant Allysgol, byddwch mewn lle da i barhau i hyrwyddo ei werth a darparu amgylcheddau chwarae o ansawdd er mwyn bod o fudd i'r plant yn eich gofal yn dilyn y cyfnod heriol hwn.

Byddwn oll yn dysgu sawl gwers o'r argyfwng hwn. Os llwyddwn i ddod allan o hyn fel ag o'r blaen, a dwi'n siŵr y gwnawn, bydd arnom angen amser i adfywio, ac yna, rwy'n siŵr y down i ffynnu eto, â chefnogaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a'i dîm o staff ymroddgar.

Ni chaiff ein gwaith i gefnogi'r Sector Gofal Plant Allysgol ei gywasgu gan yr argyfwng hwn. Bydd nifer o'r pethau y byddwn yn ymdrin â nhw, wrth fod gartref, ond yn sicr yn y dyfodol, yn bethau yr ydym wedi bod yn eu dweud bod angen i'r sector eu hystyried ers tipyn, ac yn bethau y mae ein **Prosiect ar Cysylltu a Chefnogi Clybiau Gofal Plant Allysgol a Chymunedau - a ariannwyd gan Brosiect Cronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol** yn mynd i'r afael â nhw.

Efallai mai yn awr yw'r amser i adolygu eich Clwb, ystyried ei gynaliadwyedd yn y dyfodol a sut y gellir gwella hyn. Gallwn eich cefnogi drwy:

- ddatblygu **cynlluniau gweithredu unigol** o asesiadau ansawdd i adeiladu ar **gryfderau**;
- darparu **cefnogaeth fusnes barhaus** er mwyn gwella ar lywodraethiad a sgiliau busnes;
- cynorthwyo gyda chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru a chyda mentrau sy'n gwella fforddiadwyedd, megis y Cynnig Gofal Plant a Gofal Plant Di-dreth;

Os oes un peth yr wyf i wedi ei ddysgu yn ystod yr adeg hon, dyma ydyw: pwysigrwydd annog llywodraethiad ac arferion busnes cadarn; cefnogi lleoliadau a reolir yn wirfoddol i edrych ar eu strwythur a phwysigrwydd dod yn SEC; edrych ar leoliadau gan y'u cael eu rhedeg gan ysgolion a'u datblygu i wneud yn sicr eu bod yn cael eu llywodraethu'n gywir a'u bod wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, gan annog clybiau i ddefnyddio pob agwedd o AGC ar-lein. Bydd angen i ni edrych ar farchnata ar-lein a chynaliadwyedd y sector, gan sicrhau eu bod yno, fel rhan annatod o economi sylfaenol Cymru, i helpu yn y broses o ailadeiladu ein gwlad.

Hoffwn ddiolch i'n partneriaid yn CWLWM; teimlaf ein bod wedi tyfu'n agosach at ein gilydd, a'n bod wedi cydweithio â nerth newydd drwy'r adeg yma, wrth gefnogi'r Sector Gofal Plant cyfan dros Gymru benbaladr.

Yn fwyaf oll, hoffwn ddiolch i'r clybiau hynny sydd eisoes wedi ailymaelodi, gan werthfawrogi'r gefnogaeth a'r arweiniad rheolaidd y mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi eu rhoi. I'r lleoliadau hynny sydd yn dal i gydnabod y llif gwybodaeth y maent wedi ei dderbyn, waeth bynnag fo'u statws aelodaeth drwy'r argyfwng, gobeithio y gwnewch ddewis ein cefnogi yn y flwyddyn aelodaeth newydd hon.



Jane O'Toole,
Prif Swyddog Weithredol

Clybiau Plant Cymru KIDS' CLUBS

# Gofal Plant a Chwarae, hanfodol yn y frwydr yn erbyn Covid-19

Ym mis Chwefror fe wnaethom ddechrau dysgu am feirws a allai ledaenu'n bandemig. Gwyddem fod cau ysgolion a chyfnod disymud yn anorfod, ac erbyn mis Mawrth fod yr amser hwnnw wedi dod. Dywedwyd wrth bobl am weithio gartref lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl, a chaewyd ysgolion, Nodwyd gan y llywodraeth y rolau a fyddai'n weithwyr allweddol yn y frwydr i reoli'r feirws yma, a daeth i sylw'r wlad yr hyn yr oeddem ni, weithwyr yn y Sector Gofal Plant a Chwarae, eisoes yn ei wybod, sef **bod, ac y bydd Gofal Plant o hyd, yn hollbwysig i gymunedau a'r gymdeithas gyfan**.

Roedd angen i nifer fawr o leoliadau ddod i'r penderfyniadau anodd i gau, a gwirfoddolodd Ymarferwyr Gofal Plant a Chwarae ar hyd a lled y wlad i roi eu hunain mewn sefyllfa o risg er mwyn gofalu am y plant hynny yr oedd eu rhieni'n gweithio yn y rheng flaen, naill ai boed drwy ddal i weithio yn eu lleoliadau presennol, gwirfoddoli mewn hybiau neu gynnig cymorth mewn darpariaethau gofal-plant eraill.

Yr oedd lleoliadau a allai aros ar agor i ofalu am blant gweithwyr allweddol, ac un o'r lleoliadau hynny oedd Busy Bees ym Mlaenafon, Torfaen.

"Unwaith y daeth Covid-19 yn ffaith wirioneddol, yr oedd eisoes synnwyr clir o arswyd yn y feithrinfa - yn enwedig ymhlith aelodau o'r staff a oedd naill ai â chyflwr iechyd cefndirol eu hunain neu'n byw gyda rhywun yn y cyflwr hwn. Fe wnaethom gynnal cyfarfod brys o'r tîm uwch ar y nos Sul cyn cyhoeddi'r "clolawr" a phenderfynwyd ar y pryd hwnnw i roi'r holl staff hynny ar gyfnod saib". Dyna atgof Sue, Rheolwr Busy Bees. Tra'r oedd modd i'r staff gofal plant ddefnyddio'r hybiau a sefydlwyd i blant gweithwyr chwarae, roedd rhai o'r staff ddim am wneud hyn, ac am fod gartref gyda'u plant. Parchodd Busy Bees hyn a gosod y staff hynny yn ogystal ar gyfnod saib. Fe wnaethant ystyried rhoi mwy o staff ar gyfnod saib oherwydd y gostyngiad sylweddol yn nifer y plant, ond roeddent yn teimlo y byddai'n well cadw cymaint o aelodau staff â phosibl i gefnogi yn achos salwch.

Gan ystyried y risgiau i'r staff fe wnaethant benderfynu y byddent yn ymdopi â'r staffio drwy rannu shifftiau. Byddai'r un timau'n gweithio yn y boreau a thîm arall yn y prynhawn, gan leihau'r amser yr oedd y staff yn y lleoliad. Fe wnaeth y lleoliad hefyd addasu ei amserau agor a chau arferol i gefnogi anghenion y rhieni.

Roedd cadw pellter cymdeithasol yn ddull allweddol o gyfyngu ar ledaeniad y feirws. Gan ystyried hyn, rhoddodd Busy Bees weithdrefnau yn eu lle i wneud yn sicr fod y cysylltu i'r tu mewn o'r adeilad yn gyfyngedig i'r plant a'r staff yn unig. Gofynnwyd i'r rhieni beidio â dod â'r plant i mewn i'w hystafelloedd cartref fel yr arferent wneud; roeddent i aros wrth y gât a byddai'r plant yn mynd i mewn i'r adeilad â'r staff yno'n aros i'w cyfarch. Wrth gasglu, gofynnwyd eto iddynt aros wrth y gât, a byddai'r staff yn anfon y plant allan. Roeddent yn glanhau'n aml ac yn gwneud yn siŵr fod golchi dwylo'n ddigwyddiad rheolaidd.

Yr oedd mor bwysig dros yr adeg yma i sicrhau mai lles y plant fyddai bwysicaf gennym. Roedd yn glir fod y plant yn gallu codi rhywfaint o ofnau'r oedolion, a bu newid mawr yn y ffordd yr oedden nhw'n arfer byw eu bywydau. Roedd yn hollbwysig fod y staff yn ymdrin ag ofnau'r plant ac yn rhagweithiol yn ymateb i unrhyw bryderon a o duy'r plant. Nid oedd y plant mewn gwirionedd yn deall cadw pellter cymdeithasol ac mae'n rhaid ei bod wedi bod yn rhyfedd iddyn nhw i beidio â bod mewn cysylltiad corfforol agos, fel y byddent fel arfer, ond roedd y staff yn gefnogol iawn o ran hyn ac yn atgoffa'r plant yn dyner i gadw cymaint o bellter â phosibl.

"Mae'r staff yn dal i ymagweddu mewn ffordd broffesiynol iawn, er yn gyson bryderus ynghylch yr holl sefyllfa. Fe wnaeth y plant ymdopi'n dda iawn". Fe wnaeth busy bees greu strwythur rhydd a oedd yn ystod yn sichau bod y plant yn profi parhad, and hefyd llawer o hwyl. Roedd y diwrnod bob tro'n dechrau boil ai ag ymarfer corff gyda Joe Wicks neu Yoga. Profwyd eisoes bod y ddau weithgaredd yma'n gefnogol i iechyd meddyliol a llesiant.

Gofynodd Sue i'r staff rannu peth o'r cadarnhaol a pheth o'r negyddol ynglŷn â'r sefyllfa a dal i ofal am blant yn ystod yr amser mor ddigynsail. Er mai sylwadau ynghylch gadael eu plant eu hunain er mwyn gofalu am eraill, â'r risg o ddod â'r feirws adref, yr oedd y mwyafrif o'r sylwadau negyddol, yn eu sylwadau cadarnhaol, roedd yr holl staff fel un yn eu teimlad ei bod yn bwysig cefnogi'r teuluoedd gweithwyr-allweddol hyn, ac roeddent yn barod iawn i wneud hynny. Sylw ychwanegol ganddynt oedd eu bod yn "gweithio gyda thîm ardderchog sy'n cefnogi ei gilydd, felly wnaethom ni ddim petruso". Ac mewn jôc meddai un aelod o'r staff, "mae bod gyda chi i gyd fel bod yn ein tŷ ni!".

Diolch i Busy Bees a'r holl sector Gofal Plant a Chwarae am y rôl hollbwysig y gwnaethoch eich chwarae yn ystod amser mor ddigynsail. Nid yn unig yr oeddech â rhan hanfodol yn galluogi staff allweddol i weithio ar y rheng flaen, roedd y gefnogaeth a roesoch i blant ein gwlad yn amhrisiadwy. Fe wnaethoch ddefnyddio'ch sgiliau fel gweithwyr chwarae i wneud yn sicr fod y plant yn cofio'r adeg hon nid wrth gofio'r ofn a'r ansicrwydd, ond fel amser lle'r oeddent yn rhydd i wneud dim ond chwarae.

Darllenwch mwy am sut mae clybiau wedi bod yn delio gyda'r sefyllfa bresennol a sut i reoli dod allan o'r glolawr ym mhellach yn y rhifyn hwn.

# Penblwydd Hapus i Ni!

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn dathlu bod yn gyfundrefn aelodaeth ers 2005! Am 15 mlynedd felly, mae Lleoliadau fel eich lleoliad chi felly wedi bod yn gwerthfawrogi'r help a'r gefnogaeth yr ydym wedi eu rhoi ichi, y gostyngiadau afu ar gael ar Wiriadau'r GDG, yswiriant ac adnoddau, a'r hyfforddiant a'r cymwysterau am ddim y gallwch eu cyrchu drwy dalu'ch tanysgrifiad, y gwnaethom ei gadw mor isel â phosibl, gan sylweddoli'r pwysau ariannol sydd ar eich busnes flwyddyn ar ôl blwyddyn. Hoffem ddweud **DIOLCH** wrth bob Lleoliad sydd wedi bod yn aelod dros y 15 mlynedd ddiwethaf, gan gydnabod yn arbennig 85 Lleoliad sydd wedi bod yno o'r dechrau'n deg, ac sy'n dal i'n cefnogi heddiw!





Mae'r ffi aelodaeth yn dechrau ar ddim ond £50.00 y flwyddyn, a gallwch ymuno/ailymaelodi ar-lein os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny: www.clybiauplantcymru.org.

**Bydd ymaelodi hyd at 31.03.2021 yn arbed y canlynol i chi:**
- **£20.00** am bob person sy'n archebu lle ar gwrs Hyfforddiant
- **£50.00** os ydych yn prynu gweithdy clwb
- **Gostyngiad** o hyd at **15%** ar eich yswiriant gyda Morton Michel
- **Gostyngiad** o hyd at **5%** ar eich Gwiriadau GDG (ffioedd prosesu) gydag uCheck
- **10% o ostyngiad** ar deganau a chyfarpar o Stepping Stones
- **10% o ostyngiad** ar deganau a chyfarpar gydag EYP.

**Gallwch CHI hefyd gael:**
- Hysbysebu'ch Clwb am ddim ar www.clybiauplantcymru.org - fel y gall rhieni/gofalwyr ddod o hyd i'ch lleoliad.
- Hysbysebion recriwtio yn ddi-dâl www.clybiauplantcymru.org
- E-newyddion ar ariannu yn rhad ac am ddim bob mis
- Newyddlen chwarterol yn cynnwys syniadau am weithgareddau a chodi arian am ddim
- Cyhoeddiadau, yn cynnwys Camu Allan (sy'n llawn samplau o bolisïau a gweithdrefnau i'ch helpu i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol) am ddim.
- Arweiniad arbenigol yn rhad ac am ddim gan dîm o Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant ar gynllunio busnes, ehangu, cofrestru, sicrwydd ansawdd a phob agwedd arall ar ddarparu Clwb Gofal Plant Allysgol. Cefnogaeth gan eich swyddfa ranbarthol, sy'n darparu arweiniad ar faterion gofal plant a busnes.
- Cyfle i fod yn rhan o'n Bwrdd Ymddiriedolwyr a llunio dyfodol Gofal Plant Allysgol yng Nghymru.

Rydym wedi dod i'r penderfyniad y byddwn yn cefnogi POB Lleoliad Gofal Plant Allysgol drwy argyfwng Covid-19, gan ein bod mewn cyfnod digynsail. Os byddwch angen ein help, byddwn yno ar eich cyfer! Ewch i'r wefan i weld y manylion cyswllt, neu anfonwch e-bost i info@clybiauplantcymru.org ac fe roddwn gefnogaeth-o-bell i chi.

Gobeithio y bydd y rhai yn eich plith sydd heb gael y cyfle eto i adnewyddu eich aelodaeth yn gwneud hynny yn ystod yr wythnosau i ddod, ond os ydych yn dal yn ansicr, dyma beth a ddywedodd rhai o'n haelodau ers 15 mlynedd:

*"Rydym yn falch iawn ein bod yn rhan o gymdeithas ffantastig; ry'ch chi gyd yn wych, bob tro eisiau helpu hefyd, a chynnig cyngor cyflym ac effeithlon. Does dim yn ormod o waith i unrhyw un ohonoch, ac er mod i'n gallu bod yn dipyn o ben tost(dwi'n gwybod fy mod i!!!) ry'ch chi'n dal yna i'm helpu. Hyd yn oed yn ystod yr amserau anodd hyn ry' ch chi'n dal yna, sy'n golygu llawer. Byddwn i'n argymell i bob busnes bach, fel fy un i, i ymuno â Clybiau am fod manteision gwneud hynny yn enfawr!!"* **Clwb Enfys, Conwy**

*"Ni fyddem yn bodoli, nac wedi goroesi am 17 o flynyddoedd pe na bai'n Cyfundrefn Fantell (Clybiau) wedi bod yno ym mhob tywydd! – Llawer o ddiolch am eich help dros y blynyddoedd."* **Clwb Allysgol Corneli Sger, Pen-y-bont ar Ogwr**

*"Ces fy nghyflwyno i Clybiau pan gymerais drosodd gyntaf redeg y clwb Cyn/Ar ôl ysgol yr oeddwn yn gweithio ynddo. Fe wnaethon nhw helpu drwy fy arwain drwy'r gwahanol brosesau, a chyfoeth o wybodaeth yn syth wrth law ganddynt. Byddem wedi teimlo ar goll heb eu harweiniad, eu cefnogaeth a'u hamynedd mawr. Fe wnaethon nhw droi problemau brawychus yn rhai y gallem ymdopi â nhw."* Clwb **Beech Tree Club, Sir y Fflint**

*"Mae Clybiau Plant Cymru yn wasanaeth rhagorol a hygyrch, ac mae'r staff bob to'n barod i helpu pan fydd angen. Rydym wedi bod yn aelodau o Clybiau ers nifer o flynyddoedd ac maen nhw wedi'n helpu ni mewn sawl ffordd, er enghraifft: gyda rhedeg ein clwb, polisïau, hyfforddiant, gwneud cais am grantiau a llawer mwy. Mae'r hyfforddiant ar ydym wedi ei gael wedi bod yn hwyl ac yn llawn gwybodaeth, ac rydym o hyd yn edrych ymlaen at beth sydd nesaf."* **Clwb Ôl-ysgol Gwynedd, Sir y Fflint**

*"Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi bod yn cefnogi clwb Allysgol/Gwyliau Y Twyn hyd y cofiaf. Rwyf wedi bod yn gweithio yn y clwb ers dros 20 o flynyddoedd, wedi bod yn aelod erioed, ac maen nhw wastad wedi'n helpu ni gyda chwestiynau a phryderon pan fyddan nhw'n codi.*

*Maen nhw wedi bod yno i helpu a darparu hyfforddiant, wedi'n cyfeirio i'r man cywir pan roedd angen grant arnom ni, ac wedi rhoi help pan ro'n ni ei angen.*

*Maen nhw'n ein diweddaru yn gyson gyda'r deddfau a'r rheoliadau newydd sy'n dod oddi wrth y llywodraeth. Hyd yn oed yn awr yn ystod yr adegau anodd hyn, mae aelodau'r tîm yn ffonio'r grwpiau i weld bod pawb yn saff ac wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf ar Covid-19.*

*Gwaetha'r modd, dy'n ni ddim wedi cael Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant yng Nghaerffili er rhai blynyddoedd, ond rydyn ni'n gwybod eich bod bob tro ar ben arall y ffôn os a phan fyddwn eich angen. Hoffen ni ddiolch i chi am eich cefnogaeth gyson."*
**Clwb Allysgol Y Twyn, Caerffili**



*"Ro'n i wrth fy modd gyda'r gweithdai, ac roedd y sesiwn ar Hunanasesu Gwasanaeth yn llawer o help."* **Gofal Plant Happy Days, Sir Benfro**

*"Mae Clybiau Plant Cymru Kid's Clubs wedi ein cefnogi ni o'r cychwyn. Maen nhw wedi bod yno gyda'u cymorth a'u cyngor bob cam o'r ffordd. Maen nhw wedi ein cefnogi ni i gael grantiau drwy amrywiol ffynonellau, gan hyfforddi ein staff, rheoli ein polisïau a'n gweithdrefnau ein hunain a hefyd gynnig gwell profiadau i'n plant. Mae'u gwefan yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol, ac ymarferol; dyma'n man cyswllt cyntaf os oes gennym unrhyw broblemau, neu os ydym angen unrhyw help. Mi fyddwn ni ar goll hebddyn nhw."*
**LAFS, Sir y Fflint**

*"Mae'r staff wir yn gymaint o help, ac mor gwrtais. Maen nhw'n lot o help pan fydd ei angen."* **Clwb Ôl-ysgol Bloomfield, Sir Benfro**

*"Mae'n debyg bod 15 mlynedd wedi mynd heibio ers i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs fod ag aelodaeth, ac ry'n ni yng Nghlwb Hwyl Henryd wedi bod yn aelodau er y flwyddyn gyntaf honno. Dwi ddim yn gwybod pwy benderfynodd ymuno â'r gyfundrefn newydd ond roedd yn benderfyniad da. Dros y blynyddoedd mae Clybiau Plant wedi ein cefnogi'n ariannol, gan weithio ar grantiau cynnal a chyfalaf, wedi'n helpu yn dechnegol gyda rhedeg y cwmni, wedi rhoi cefnogaeth foesol i ni ar gyfer archwiliadau, ac wedi'n helpu yn ymarferol o ran hyfforddi staff, yn cynnwys NVQs mewn Gwaith Chwarae"* **Clwb Hwyl Henryd, Conwy**

# Gorllewin Cymru



## Newydd Gofrestru

Hoffai Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs estyneu llongyfarchiadau i Childsplay Crwys yn Abertawe, a lwyddodd i gael eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ddiweddar. A hwythau o'r blaen yn rhedeg am lai na 2 awr, gall eu Clwb Ôl-ysgol yn awr agor am fwy o amser er mwyn ateb gofynion y rhieni hynny sy'n gweithio neu'n hyfforddi, ac maent wedi ymestyn i gynnig cyfleuster amlapiol i helpu rhieni plant ysgol rhan-amser i ddychwelyd i'w gwaith. Wrth dreialu Clwb Ôl-ysgol yn Ysgol Gynradd Crwys, fe wnaeth y staff yn Childsplay weld bod dod yn gofrestredig ag AGC wedi bod yn bwysig iawn, nid yn unig iddyn nhw allu cynnig oriau hirach ac ymestyn eu gwasanaeth, ond i'r rhieni a'r gofalwyr hefyd. Fe wnaethant sylweddoli'n gyflym fod nifer o rieni'n dewis defnyddio gofal plant wedi ei reoleiddio, nid yn unig am yr ansawdd a gydnabyddir, ond hefyd am y manteision ariannol, megis cyrchu gofal plant di-dreth neu elfen ofal plant credydau treth/credydau cynhwysol. Hefyd, roedd nifer o deuluoedd yn awyddus i ddefnyddio'r ddarpariaeth gyda chefnogaeth Y Cynnig Gofal Plant ac felly fe wnaeth y lleoliad gofrestru'n gyflym gyda'u Hawdurdod Lleol i wneud yn sicr y gallent gynnig y gwasanaeth hwn.

Gall cynorthwyo rhieni i gyrchu'r buddiannau gofal plant y gallent fod yn gymwys amdanynt, yn aml gefnogi cynaliadwyedd Lleoliad Gofal Plant fel y bydd Childsplay Crwys, gobeithio, yn ei weld gydag amser.

Dymunwn y gorau yn y dyfodol i Childsplay Crwys!

**Angen cysylltu â ni?**

Cewch gysylltu â Thîm Gorllewin Cymru
drwy ffonio: 01269 831010,
drwy ebost: info-ww@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: Uned 2, Clos Gelliwerdd, Parc Busnes Cross Hands, Cross Hands, Sir Gaerfyrddin. SA14 6RX

## Gweithwyr Chwarae yng Ngorllewin Cymru'n dal i ddarparu chwarae yn ystod cyfnod lledaeniad Covid-19

Mae Gweithwyr Chwarae ar hyd a lled y wlad yn dal i ddatblygu, addasu a darparu profiadau chwarae amhrisiadwy i'r plant yn eu gofal. Daeth yn amlwg yn fuan nad oedd profi ynysedd am gyfnod byr yn mynd i atal ein Gweithwyr Chwarae anhygoel rhag parhau i wneud eu gwaith eithriadol.

Mae cynlluniau arloesol y Gweithwyr Chwarae wedi cynnwys - amser stori ar Fideo, yn cwmpasu gwaith hybiau ysgol, a rhoi cyfleoedd chwarae a chefnogaeth i rieni drwy gyfrwng sawl adnodd technegol.

Mae nifer o'n Gweithwyr Chwarae wedi bod yn hynod garedig yn cynnig eu cefnogaeth i hybiau ysgolion yn eu cymunedau. Mae'r adborth o'r ymarferwyr hyn wedi bod yn gadarnhaol y tu hwn, a Gweithwyr Chwarae'n teimlo wedi'u grymuso i gefnogi'r plant a'r cymunedau drwy'r profiad anodd hwn. O ganlyniad i'r gostyngiad yn niferoedd y plant sy'n mynychu'r gwasanaethau hyn, mae Gweithwyr Chwarae wedi adrodd bod mwy o gyfle i roi cyfleoedd chwarae pwrpasol i'r plant yn eu gofal yn ogystal â gwasanaeth bugeiliol mwy personol y gallant ei roi.

Ymhlith yr heriau sy'n wynebu'r staff y mae pryderon ynghylch y plant ar adeg o dyndra i nifer o deuluoedd gweithwyr allweddol ar hyd a lled y wlad. Mae cysuro plant a theuluoedd ar yr adeg hon yn heriol, ond yn rhan hollbwysig o rôl Gweithiwr Chwarae Hyb; rôl yr ydym yn ddiolchgar iawn fod ein Gweithwyr Chwarae wedi ei chymryd mor barod. Yn ogystal â hyn, mae Gweithwyr Chwarae'n adrodd ar ddwylo hynod o lân o ganlyniad i olchi dwylo aml iawn, a glanhau mwy egnïol nag arfer hyd yn oed o fannau chwarae!

Mae clybiau nad oedd yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau yn eu Clybiau wedi bod yn defnyddio ffyrdd dyfeisgar iawn o barhau i fod yn rhan o fywyd y plant. Mae iPads wedi cael eu defnyddio gan staff craiff y lleoliadau hyn ar gyfer sesiynau1:1 a grwpiau bychain, er mwyn gwneud yn sicr na chaiff unrhyw blentyn, rhiant na theulu eu hanghofio yn ystod yr adeg hon. Ymhlith yr heriau cynnar yr oedd problemau bychain technegol o ran cysylltu â'r plant a'u teuluoedd, ond datryswyd y rhain yn fuan ac mae teuluoedd yn awr yn gwybod bod staff y clwb yno ar eu cyfer os bydd angen unrhyw gefnogaeth bellach arnynt.

Ymhlith y gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy o bell yr oedd:

• Amser Stori,
• Canu ac amser cân,
• Cefnogaeth i rieni,
• Tiwtorialau ar chwarae
• Fideos sy'n rhoi gwybodaeth (h.y. ffyrdd difyr o olchi'ch dwylo)

Dyfyniadau o leoliadau sy'n defnyddio iPads i barhau i aroi cyfleoedd chwarae a chefnogaeth i blant a theuluoedd -
*'Ambell i riant a ddwedodd eu bod nhw'n iawn ar y dechrau, dim angen cysylltu, yn awr yn eiddgar amdano!'*
*'Fe wnaethom ni hefyd anfon allan enfysau wedi'u gweu i'r holl blant ar ein llyfrau, dim ond i adael iddyn nhw wybod ein bod yn meddwl amdanyn nhw a'u teuluoedd.'*
*'Roeddwn i am wneud yn siŵr nad oedden ni'n diflannu o fywydau plant; er na fydd yn gweithio i bawb, os ydym yn cefnogi rhai, bydd wedi llwyddo!'*

Mae adborth o gynlluniau fel hyn wedi bod mor boblogaidd gyda'r plant a'u teuluoedd fel eu bod wedi gofyn am bara â nhw wedi'r cyfnod clo.

Os oes gan eich clwb ei hanesion ei hun ynghylch sut yr ydych yn dal i gynnig cyfleoedd chwarae yn eich ardal chi, peidiwch â phetruso, cysylltwch â ni ar clybiauplantcymru.org fel y gallwn rannu'r syniadau hynny a hyrwyddo'r arferion gorau i'r gymuned chwarae gyfan.



## Prosiect Ray Gravell Sir Gaerfyrddin

Cyn yr angen anffodus i ohirio pob ymweliad a gweithdy oherwydd Covid-19, cyflenwyd 4 o'n gweithdai ardderchog yn RHAD AC AM DDIM i 4 clwb anhygoel arall yn Sir Gaerfyrddin y tymor yma, yn cynnwys: Clwb Heol Goffa, Clwb Mes Y Dderwen, Canolfan Elfed, ac Uned Myrddin.

Fe wnaeth y plant fwynhau'r gweithgareddau hwyl, megis y canlynol, gyda'i gilydd: tostio malws, trochi malws mewn siocled, gwneud baneri, ysgwydwyr glaw, offerynnau a gemau balŵn. Cawsom oll hwyl ddi-ben-draw.

*'Noson wirioneddol wych - Diolch'*
*'Cefnogaeth Benigamp'.*



### Grantiau Cyfalaf Bach Abertawe

Mae lleoliadau Gofal Plant y dyfarnwyd arian iddynt gan Grantiau Cyfalaf Bach y Cynnig Gofal Plant wedi bod yn gwneud defnydd da o'r pethau y gwnaethant eu prynu yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf; roedd yr eitemau'n amrywio o oergell/rhewgell newydd i gadw byrbrydau ar y tymheredd iawn, i gyfarpar awyr-agored megis Didicars a beiciau cadw cydbwysedd ac arwynebau newydd ar y tu allan i alluogi plant i fwynhau'r awyr agored yn ddiogel.

### Gwaith Chwarae yn Mayals

Yn ystod tymor y Gwanwyd fe wnaethom groesawu 3 Gweithiwr Chwarae o Glwb Amlapiol ac Ôl-ysgol yn Mayals, Abertawe i'n Prentisiaeth Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae. Dyma amser cyffrous i bob un o'r tri ddechrau ar daith i ennill eu cymhwyster i ennill eu cymhwyster a bodloni rheoliad AGC i fod â chymhwyster Gwaith Chwarae erbyn mis Medi 2021! Bydd y Swyddog Hyfforddi, Hayley Timms, yn eu cefnogi dros y flwyddyn nesaf i ennill eu cymhwyster. Pobl lwc i Emma, Ann Marie a Helen!

## Dyfarniad Bagiau Cymorth Tesco i'n Prosiect 'Chwarae y tu allan, Cysylltu â Natur', Aberdaugleddau, Sir Benfro

Mae ariannu o ddyfarniad Bagiau Cymorth Tesco wedi'n galluogi i gyflenwi 20 gweithdy i 34 o Weithwyr Gofal Plant a 279 o blant mewn 6 Chlwb Gofal Plant Allysgol sydd wedi eu cysylltu â siop Aberdaugleddau yn Sir Benfro. Eu nod oedd eu hysbrydoli i ddarganfod mwy am eu man awyr-agored a chwarae gemau corfforol a chydweithredol yn gyson.

Mae'r gweithdai hyn yn annog plant i fod yn ymhongar am natur, i fod yn ymwybodol o'r angen i amddiffyn yr amgylchedd, mwynhau gweithgareddau corfforol a chael hwyl yn cydweithio ag eraill - y rhain oll yn sgiliau bywyd/galluoedd hollbwysig.

Diolch i'r prosiect yma, y mae yn awr gan y Gweithwyr Chwarae gyfoeth o syniadau chwarae newydd - rhai wedi eu datblygu ar y cyd â 3 Pharc Cenedlaethol Cymru ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr. - i'w cyflenwi yn gyson, gydag o leiaf 284 o wahanol blant yn y Clybiau perthnasol. Mae cyflwyno natur a chwarae corfforol mewn ffyrdd hwyliog hefyd yn annog plant i chwarae'n annibynnol yn yr awyr agored. Roedd yn glir i'r gweithdai yma gael derbyniad da iawn:

*'Llawer o syniadau newydd i ni.'*
*'Hyfryd gweld y plant yn chwarae y tu allan hyd yn oed mewn tywydd drwg.'*
*'Yn ardderchog gyda'r plant, a da gweld esiampl o'r ffyrdd y gall plant o oedrannau cymysg gydweithio.'*
*'Roedd y plant wrth eu bodd. Mae wedi rhoi llawer o syniadau i ni.'*

## Caredigrwydd mewn clybiau

Ar ddechrau'r flwyddyn, cafodd Clwb Gofal Brynymor yn Abertawe archwiliad rhagorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (da iawn i'r holl staff yng Nghlwb Gofal Brynymor!). Fe wnaeth eu Harolygydd AGC gydnabod bod y 'staff yn annog y plant i rannu, bod yn garedig at ei gilydd ac i ystyried teimladau'r plant eraill'. Mae Erthygl 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn datgan bod gan bob plentyn yr hawl i ymlacio a chwarae, a gall Lleoliadau Gofal Plant a Chwarae fod yn lleoedd perffaith i blant fynd ati i wneud hyn. Drwy gydol y flwyddyn efallai y bydd gennych blant newydd yn mynychu'ch Lleoliad, neu, wedi toriad hir i ffwrdd megis cau dros dro oherwydd pandemig Covid-19 neu wyliau'r haf, efallai y byddech am helpu'r plant i ddod i adnabod ei gilydd a gwneud ffrindiau newydd, ac mae ambell i 'dorwyr naws' a gemau y gallech eu chwarae i gynorthwyo hyn. Un gweithgaredd i helpu plant i ddod i adnabod ei gilydd yn well yw'r gêm 'Dwi'n hoffi/Dwi'n anhoffi'.

Sut i'w chwarae:
Dowch â'r holl blant a'r Gweithwyr Chwarae i mewn i gylch. Mae un person yn dechrau drwy daflu'r bêl ar draws y cylch i berson arall tra bydd yn dweud 'Dwi'n hoffi … '. Mae'r person sydd yn awr yn dal y bêl yna'n ei thaflu i'r person o'u dewis ac yn dweud, 'Dwi'n hoffi …' ac felly ymlaen, ond ni allwch ddweud rhywbeth sydd eisoes wedi cael ei ddweud, felly mae'n rhaid i chi feddwl am rywbeth arall. Gwnewch hyn dro ar ôl tro nes eich bod ym methu â meddwl am fwy o bethau rydych chi'n eu hoffi! Gallech newid hyn i bethau nad ydych yn eu hoffi, neu deimladau, ond y mae'n ffordd dda iawn i blant ddod i nabod ei gilydd, ac i ddysgu gwrando ar ei gilydd, a chael hwyl ar yr un pryd! Mae hyn yn dechneg dda iawn i'w defnyddio ar ddyddiau meithrin-tîm aelodau'r staff hefyd!

# Gogledd Cymru



## Menter Plant Iach

Rydym yn hynod falch o allu cyhoeddi ein prosiect cyffrous newydd sydd ar gael i Aelod Glybiau yng Nghonwy.

Mae Menter Plant Iach, sydd wedi ei ariannu gan Gronfa'r Co-op, yn anelu at ymgysylltu â phlant a phobl ifanc er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd bod yn iach a chadw'n egnïol, gan eu helpu i wella eu ffordd o fyw ar gyfer y dyfodol.

Bydd y prosiect yn cyflenwi gweithdai i blant, pobl ifanc a Gweithwyr Chwarae mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol ledled sir Conwy; ei nod yw eu cynnal eu diddordeb a'u haddysgu ar bwysigrwydd cadw'n iach a chwarae gemau er mwyn byw yn hirach, gan leihau'r risg o ordewdra plentyndod.

Byddwn yn gweithio gydag 8 Clwb Allysgol yng Nghonwy a fydd yn cymryd rhan (rhaid iddynt fod yn aelodau). Bydd pob Clwb unigol yn derbyn 2 Weithdy Clwb am ddim, sef Yn Gyforiog o Gemau a Bydïo (y manylion isod)!

### Yn Gyforiog o Gemau

Mae hwn yn darparu llu o syniadau ar gyfer hyrwyddo gemau dan do ac yn yr awyr agored a buddiannau gweithgaredd egnïol, cyfathrebu a meithrin tîm.

### Bydïo

Gweithgareddau dan arweiniad lle y gall plant sydd ychydig yn hŷn helpu plant iau i fod ynglŷn â gwahanol weithgareddau, gan roi cefnogaeth, arweiniad ac anogaeth iddynt wneud gwahanol dasgau.

**Angen cysylltu â ni?**

Cewch gysylltu â Thîm Gogledd Cymru drwy ffonio: 01492 536318,
drwy ebost: info-nw@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: 19, Princes Drive,
Bae Colwyn. LL29 8HT

## Gofal Plant am ddim ym Meithrinfa Ddydd Springfield Cyf.

Mae Meithrinfa Ddydd Springfield Cyf., sy'n cynnig darpariaeth gofal plant mewn pum meithrinfa yng Nghonwy, Gogledd Cymru, wedi arddangos ysbryd cymunedol ardderchog ac wedi cynnig cefnogaeth i weithwyr allweddol drwy gynnig gofal plant am ddim iddynt. Ni fyddai'r gwasanaeth hwn yn bosibl heb y staff, sydd wedi ymrwymo i gefnogi plant gweithwyr allweddol drwy gydol yr adegau pryderus hyn. Fel tîm maent wedi ymrwymo i helpu pob teulu, ar hyd a lled Gogledd Cymru, ac ar hyn o bryd maent yn gofalu am blant sydd wedi teithio o leoedd mor bell â Llaneurgain, Sir y Fflint. Mae Meithrinfa Ddydd Springfield yn gobeithio parhau i gynnig gofal plant am ddim i weithwyr allweddol cyhyd ag y gallant; maent yn ymwybodol o'r anawsterau y mae gweithwyr allweddol yn eu hwynebu o ran gofal plant, gan efallai fod eu darparydd gofal plant neu'u gwarchodwr plant blaenorol, yn anffodus, wedi gorfod cau.

Mae Springfield yn cynnwys amgylchedd modern, diogel, cynnes a golau lle y gall plant ffynnu. Yn ogystal â bod yn gartref oddi cartref i'r plant yn eu gofal, y mae'n cynnig ffordd drefnus, ysgogol a hwyliog o ddysgu, sy'n sicrhau bod y plant yn gallu cadw synnwyr o normalrwydd ar yr adeg anghyfarwydd ac anarferol hon.

Mae'r feithrinfa wedi bod yn gweithredu'n unol ag arweiniad y Llywodraeth o ran Covid-19, ac oherwydd hyn maent wedi dod i'r penderfyniad i weithredu o un feithrinfa yn unig, sef, Ashbourne House 6-8 Woodlands Rd, Colwyn Bay, LL29 7DT. Mae'r staff oll yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr fod y dyddiad yn cael ei gadw mor normal â phosibl i'r plant yn eu gofal. Maen nhw'n cynllunio gweithgareddau hwyl a llawer o chwarae yn yr awyr agored i gadw'r plant yn brysur ac yn egnïol drwy'r dydd.

Dywedodd Sarah Stocks, Rheolwr Gweithrediadau, '*Rydym yn ymwybodol iawn fod hwn yn amser anodd i bawb, ac felly roeddem am geisio cynnig cymaint o gefnogaeth â phosibl i rieni sy'n weithwyr allweddol. Rydym yn falch o allu cynnig ein gwasanaeth, a byddwn yn parhau i wneud hyn cyhyd ag y gallwn. Rydym yn falch iawn o'n staff, sy'n rhoi gofal rhagorol drwy gydol yr adegau anodd hyn, ac yn arbennig y plant sy'n mynychu ein gwasanaeth. Maen nhw wedi addasu'n wych i'w hamgylchiadau newydd, ac yn glod gwirioneddol i'w rhieni. Hoffem hefyd ddiolch i'n holl rieni (newydd, presennol a hen) am eu dymuniadau da, eu cefnogaeth a'u dealltwriaeth, bob un, wrth i'n meithrinfa ymgymryd â rôl newydd.*'

Da iawn chi, Meithrinfa Ddydd Springfield Cyf. Mae'r gefnogaeth yr ydych wedi ei dangos dros yr adegau anodd ac ansicr hyn wedi bod yn destun balchder mawr i ni; rydych wedi creu effaith enfawr drwy roi cyfle i rieni sy'n weithwyr allweddol barhau yn eu gwaith, yn dawel eu meddwl bod eu plant yn hapus, yn cael gofal da a synnwyr o normaledd yn ystod yr adegau hyn o newid cyson.

## Clwb Newydd yn Sir Ddinbych

Mae plant Ysgol Henllan yn mwynhau eu Clwb Ôl-ysgol, sef Clwb Hapus Henllan, sydd newydd agor ym mis Ionawr eleni. Mae Clwb Hapus wedi ei leoli ym mhentref gwledig bychan, Henllan yn Sir Ddinbych. Mae'r clwb yn weithredol rhwng 3.00yh a 6.00yh ac yn darparu gofal ar gyfer 16 o blant. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi yn y dyfodol.











## Cwrdd â'r Clwb!

**Enw'r Clwb?** Clwb Y Morfa, CIC, Abergele

**Sir?** Conwy

**Beth yw'ch strwythur cyfreithiol?** Cwmni Budd Cymunedol

**Pa wasanaethau gofal plant ydych chi'n eu cynnig?** Brecwast, Ôl-ysgol a Gwyliau

**Pryd wnaethoch chi agor?** 2002

**Beth fu eich sialens fwyaf hyd yma? Sut wnaethoch ei goresgyn?** Pan adawodd y rheolwr blaenorol, gadawyd rhai aelodau o staff y Clwb i ddysgu' be oedd be', addasu a diwygio wrth ailfodelu'r Clwb.

**Beth yw'r peth gorau am weithio mewn Clwb Gofal Plant Allysgol?** Gweithio gyda'r plant, mewn tîm gwych ar y cyd ag aelodau'r staff a chael rhieni cefnogol.

**Beth oedd eich hoff atgof o'r Clwb?** Cael partïon yno

**Beth mae'r plant yn hoffi ei wneud fwyaf pan fyddant yn mynychu'ch Clwb?** Mae'r plant wrth eu bodd yn dod i'r Clwb i brofi pethau newydd na fyddent efallai'n eu profi gartref.

Clybiau Plant Cymru
KIDS' CLUBS

**Enw'r Clwb?** Clwb Dyffryn Yr Enfys

**Sir?** Conwy

**Beth yw'ch strwythur cyfreithiol?** Sefydliad Elusennol Corfforedig

**Pa wasanaethau gofal plant ydych chi'n eu cynnig?** Clwb Ôl-ysgol

**Pryd wnaethoch chi agor?** Tachwedd 2019

**Beth fu eich sialens fwyaf hyd yma? Sut wnaethoch ei goresgyn?** Gan ein bod ni'n Glwb newydd sbon mewn ardal wledig iawn, bu'n heriol i ymgysylltu â rhieni newydd a'u hannog i ddefnyddio'r gwasanaeth.

**Beth yw'r peth gorau ynghylch gweithio mewn Clwb Gofal Plant Allysgol?** Gweithio gyda'r plant a'u gwylio'n tyfu.

**Beth yw'ch hoff atgof o'r Clwb?** Y wên ar wynebau'r plant pan fyddant yn gallu dewis eu gweithgareddau, gorau po fwyaf o lanast!

**Beth mae'r plant yn hoffi ei wneud fwyaf pan fyddant yn eich Clwb?** Chwarae yn y mannau y tu allan i'r adeilad gan fod ganddyn nhw yn awr adnoddau newydd.

# De Ddwyrain Cymru



## Clolawr Covid19 yn Marshfield Monkeys, Cas-bach, Casnewydd gan Natasha Sullivan-Dungey, Rheolwr y Meithrinfa



Fel Lleoliadau fe wnaethom rannu sawl her, a chael ein hunain mewn amserau digynsail. Nid oedd y penderfyniad i gadw Marshfield Monkeys ar agor yn ystod Covid19 yn un hawdd. Cefais sawl noson ddigwsg yn ceisio prosesu'r diweddariadau dyddiol gan y Llywodraeth a'r Awdurdodau Lleol o ran beth orau i'w wneud dros ein teuluoedd a'n staff. Yn ariannol, fel yn achos y mwyafrif, y peth gorau i ni fyddai petaem wedi cau ein drysau dros dro, ond yna pwy fyddai'n gofalu am blant y gweithwyr allweddol?

Diolch i'n harferion cadarn ar iechyd a hylendid yn ein sector, roedd ein tîm yn ffit ac yn iach, felly fe wnaethom benderfynu aros ar agor.

Edrychodd y tîm yn Marshfield Monkeys ar ffyrdd o gadw'r 'normalrwydd' ar gyfer plant y gweithwyr allweddol a oedd yn mynychu, drwy gadw at ffyrdd arferol y lleoliad, rhai yr oedd y plant yn gyfarwydd â nhw, er bod nifer y mynychwyr yn isel iawn. Fe wnaethom hefyd ychwanegu gweithgareddau hwyl, fel ymarfer corff gyda Joe Wicks yn ystod sesiwn y bore.




Fe wnaethom barhau i gynllunio ar gyfer datblygiad ein plant fel petaem yn dal ar agor yn gyfan gwbl. Fe wnaethom addasu ein gweithgareddau dyddiol gan ystyried yr adnoddau a fyddai gan deuluoedd gartref. Yna rhannwyd y cynlluniau, gweithgareddau a'n trefn ddyddiol gyda'n teuluoedd gan nad oes modd iddynt gael mynediad i'r lleoliad, ac fel y gallent ddal i gefnogi datblygiad eu plentyn. Anogwyd y teuluoedd i rannu yn y pethau yr oedd eu plentyn yn eu cyflawni a'r sgiliau roeddent newydd eu dysgu a hyn drwy gyfrwng ein ap, Capture for Families, sy'n galluogi'r rhiant i gyrchu ffeil datblygu eu plentyn. Roedd hyn yn golygu y gallai'r tîm ddal i gynllunio ar gyfer cynnydd y plant, hyd yn oed os nad oeddent yn mynychu'r lleoliad.

Fe wnaethom ffilmio ac uwchlwytho ein sesiynau cylch boreol, y dweud stori a'r canu, i'n tudalen Facebook, ond roeddem yn teimlo bod rhywbeth ar goll. Ie, dyna chi ….y rhyngweithio â'r plant yr oeddem yn gweld eu heisiau'n fawr. Roedd yn rhaid i ni ddysgu ffyrdd eraill o gyfathrebu, a hynny ar frys. Dyna pryd y daethom ar draws Zoom, sesiwn byw, diogel ac ar-lein y gallem wahodd teuluoedd i fod yn rhan ohono. Diogelu oedd fy mhrif bryder! Anfonwyd at y rhieni i'w gwahodd i gymryd rhan yn y sesiwn byw, gyda chyfrinair ychwanegol. Fe wnaethom hefyd gais ar i'r plant fod â goruchwyliaeth a'u bod wedi gorffen gwisgo, roedd pyjamas yn iawn!

Roedd ein sesiynau amser-cylch ar Zoom yn boblogaidd iawn, a 18 o blant yn cymryd rhan yn ystod un o'n sesiynau - rhyfeddol. Roedd modd i'r plant ryngweithio â'r arweinydd ac â'i gilydd, ac fe wnaeth y rhieni yn ogystal ymuno yn y cyfan.

Cyn i ni gau am y toriad o bythefnos a gynlluniwyd ymlaen llaw am wyliau'r Pasg, rhoddodd Marshfield Monkeys becynnau gweithgaredd Pasg at ei gilydd ar gyfer ein holl blant, cludwyd y rhain atynt ynghyd ag wy Pasg.



Mewn ymateb i'r holl weithgareddau a rhyngweithio y gwnaethom gynnig i'r teuluoedd yn ystod Covid-19, rhoddodd un o'n teuluoedd £100 a llunio tudalen Go Fund Me, i ddal i gynorthwyo'r lleoliad i aros yn agos ar gyfer gweithwyr allweddol, a oedd yn wych ac a gafodd ei werthfawrogi'n fawr.

Nid ydym yn gwybod beth a fydd yn digwydd yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, ond bydd y tîm yn Marshfield Monkeys yn dal i ddarparu gofal plant ar gyfer plant gweithwyr allweddol ac yn rhoi cefnogaeth i'r teuluoedd gartref cyn belled â'i bod yn ddiogel gwneud hynny, gydag agwedd gadarnhaol a hwyl diddiwedd y Mwncïod! Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd am y gefnogaeth barhaus gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

Mae'r rhieni wedi dweud: *'Mae hi wedi bod yn adeg drist i'm merch. Mae peidio gallu mynd i Marshfield Monkeys a chwarae gyda'i ffrindiau fel arfer wedi bod yn anodd iddi ddeall. Ond mae'r gweithgareddau ychwanegol a ddarparwyd gan Natasha a'r tîm wedi helpu i'w chadw'n brysur gartref ac mae wedi mwynhau'r sesiynau amser-cylch o bell, lle y gallai weld a siarad â'i ffrindiau. Rydym yn teimlo mor hapus ac mor freintiedig i fod yn rhan o deulu Marshfield Monkeys gan ei fod yn ychwanegu'n wirioneddol at y synnwyr o gymuned yr ydym eisoes yn ei deimlo yn Marshfield.'*

*'Mae fy mab yn mynychu Marshfield Monkeys dri diwrnod yr wythnos, ac wedi bod yn anniddig iawn ers y cau. Mae'n gweld eisiau'n ffrindiau a'r tîm hyfryd yn Monkeys, ac felly mae'r amser-cylch dyddiol ar Zoom wedi bod yn un hyfryd yr oedd ei angen i'w gadw mewn rhyw fath o drefn ac i roi cyfle iddo deimlo mewn cysylltiad â'i ffrindiau. Ac ymhellach, a minnau'n fam iddo, mae wedi rhoi syniad cadarnhaol iawn i mi o'r sgiliau y mae wedi ei ddysgu gyda'i ganu, rhifo, siarad Cymraeg (mae'n well na mi!) ac adrodd ar y tywydd. Mae'n hyfryd gweld sut y mae'n bywiogi ym mhresenoldeb ei ffrindiau, a pha mor hawdd y mae'n ei chael i gael hwyl er nad ydyn nhw yn yr ystafell gydag e'.*

*'Mae Marshfield Monkeys wedi gwneud gwaith rhyfeddol yn fy niweddaru o newidiadau ar yr adeg ddigynsail hon, gan roi gwybod i mi am y rhagofalon ynghylch diogelu fy mhlentyn, ac ymhellach, yn darparu gweithgareddau ar-lein a rhyngweithio cartref rhagorol. Diolch Natasha a thîm y mwncïod.x'.*

### Angen cysylltu â ni?

Cewch gysylltu â Thîm De Ddwyrain Cymru
drwy ffonio: 029 2074 1000,
drwy ebost: info@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf,
Llanisien, Caerdydd. CF14 5UW

## Beth mae'r Clwb yn ei Olygu i Mi

Dougie, oed 6 - County Childcare at Greenmeadow, Torfaen



*"I love my After School Club because it is so nice. It is fun, I like my teacher in After School Club, her name is Maria, she always plays with me. We play guitars and music and I like doing it with my friend Zachary. I go to After School Club on Monday and Wednesday and I don't like it when my Mum picks me up too early!"*

If a child from your Out of School Childcare Club would like to feature in our next edition of Y Bont, please get in contact with your Regional Office!

## Clwb Y Ddraig yn Cadw mewn Cysylltiad yn ystod y Clolawr

Roedd Becci Bennett, Perchennog a Rheolwr Clwb Y Ddraig yng Nghaerffili yn gweld eisiau plant ei Chlybiau Allysgol gymaint fel y creodd ffyrdd arloesol i gadw mewn cysylltiad â'r plant. Gan ddefnyddio tudalen Facebook y Clwb, gosododd Becci her Lego 30-diwrnod i'r plant. Bob diwrnod fe osododd her wahanol, ac yna, gyda helpu eu rhieni, byddai'r plant yn postio'u creadigaethau er mwyn i'w holl ffrindiau yn y Clwb eu gweld. Ymhlith yr heriau hyn yr oedd,"Mae Capten Hook am i chi adeiladu llong forladron newydd iddo" a "Mae 'Prince Charming' am i chi adeiladu castell newydd iddo fe a Cinderella".

Ffordd wych arall o gadw'r plant i ymgysylltu ac mewn cysylltiad oedd drwy gynnal helfa sborion rithwyr. Dechreuodd Becci gynllunio ar gyfer hyn drwy bostio'r syniad ynghyd â gwybodaeth, a dyddiad posibl ar ei thudalen Facebook i weld faint o ddiddordeb a fyddai. Unwaith y cadarnhawyd y dyddiad penderfynwyd cynnal yr helfa sborion hon drwy ddefnyddio Facebook Live. Wedi ystyried Diogelwch




Data a phreifatrwydd y plant teimlwyd efallai na fyddai llwyfan gynadledda'n briodol. Yn hytrach, gallai'r plant weld Becci'n rhedeg o gwmpas ei thŷ yn casglu'r eitemau ar y rhestr a roddwyd i'r plant tra'r oedden nhw hefyd yn hel eu heitemau eu hunain. Yna gallai'r plant roi eu sylwadau a phostio lluniau i mewn i'r Llif Byw gan eu galluogi i gysylltu a chadw'u preifatrwydd.

"Fe wnes i feddwl am hyn achos ro'n i'n gwybod bod llawer o'n Dreigiau'n gweld ein heisiau; roedd rhai'n cerdded heibio'r clwb fel mater o arfer wrth fynd ar eu tro dyddiol, a bydden nhw'n anfon ffotograffau ohonyn nhw'n dweud gymaint yr oedden nhw'n gweld ein heisiau."

Roedd Clwb Allysgol Northern Ireland Play and Hometime yn Westfield Cottingham yn eiddgar i fod ynglŷn â hyn ac i rannu'r syniadau wedi i Becci anfon post atynt ar dudalen Facebook Rhwydwaith Clybiau Allysgol. Mae hon yn enghraifft mor gadarnhaol o rwydweithio a rhannu arferion da ymysg y sector Gofal Plant Allysgol.

Mae'r digwyddiadau hyn hefyd wedi dangos mor dda ydynt fel erfyn marchnata. Ers postio'r rhain, mae proffil Facebook y Clwb wedi codi ac o'u herwydd mae Becci wedi bod yn derbyn ymholiadau gan deuluoedd newydd i archebu lleoedd ym mis Medi. A'r angen i glybiau gau oherwydd Covid-19, mae hon yn ffordd ragweithiol ychwanegu at y busnes ar gyfer yr adeg y bydd cyfle i'r Clwb agor unwaith eto.

Da iawn chi, holl blant a staff Clwb y Ddraig am gadw mewn cysylltiad a chadw i fynd!

## Cwrdd â'r Clwb!

**Enw'r Clwb?** Jak's Out of School Club

**Sir?** Rhondda Cynon Taf

**Beth yw eich strwythur cyfreithiol?** Darparydd Preifat

**Pa wasanaethau gofal plant ydych chi'n eu cynnig?** Rydym yn cynnig Gofal Plant Cyn ac Ar ôl Ysgol. Hefyd rydym yn cynnig Clwb Haf am 2 allan o'r 6 wythnos.

**Pryd wnaethoch chi agor?** Medi 2006

**Beth fu eich sialens fwyaf hyd yma?** Y sialens fwyaf hyd yma fu hyn; pan wnaethom agor roedd 3 pherchennog, ond nawr mae 2 wedi gadael felly rwyf ar fy mhen fy hun, yn cadw popeth i fynd, a gall y newidiadau fod yn heriol.

**Sut wnaethoch chi oresgyn y sialens yma?** Cefais lwyth o gefnogaeth gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a help hefyd gan Rebecca Bennet o Glwb y Ddraig.

**Beth yw'r peth gorau am weithio mewn Clwb Gofal Plant Allysgol?** Rydym ni'n cael mwynhau chwarae gemau a chrefftau gyda'r plant a'u helpu i ddysgu gemau hen ffasiwn nad ydynt, mae'n ymddangos, yn gwybod amdanynt, rhai fel pennillion sgipio.

**Beth yw'ch hoff atgoff o'r clwb?** Mae cymaint wedi bod fel ei bod yn anodd dewis dim ond un! Un o'r Clwb Haf efallai pan gafodd y plant frwydr ddŵr wedi i ni gael gwestai o Hapi, a ddaeth i chwarae pêl-rwyd gyda'r plant. Aeth y ddynes druan adref yn o wlyb!

**Beth mae'r plant yn hoffi ei wneud fwyaf pan fyddant yn eich clwb?** Maen nhw'n mwynhau'r rhyddid a gânt wrth chwarae, a'r dewis o gemau, crefftau a chwarae yn yr awyr agored.

Clybiau Plant Cymru KIDS' CLUBS

## Cyfarpar Cynhwysol i Glybiau Gofal Plant Allysgol Casnewydd

Ag ariannu o Grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru, a weinyddir gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ar ran Awdurdod Lleol Casnewydd, prynwyd pecyn adnodd bychan i bob un o'r 43 Lleoliad Allysgol yng Nghasnewydd. Mae'r pecyn yn cynnwys teganau ffidlan, llyfr yn cynnwys gemau ymyrraeth-gynnar, taflunydd golau'r sêr, lamp synhwyraidd, bwrdd teimladau, clustog synhwyraidd a blanced drom. Oherwydd lledaeniad Covid-19 dim ond ychydig o'r pecynnau hyn y llwyddwyd i'w dosbarthu hyd yma, ond rydym yn gobeithio y bydd Lleoliadau'n cael yr adnoddau'n ddefnyddiol ar gyfer darparu amgylcheddau cynhwysol unwaith y bydd pethau'n ôl fel arfer!

### Gweithdai Cyfartaledd a Chynhwysiant

O ganlyniad a gafwyd o Grant Plant a Chymunedau yng Nghasnewydd, fe wnaethom ddechrau cyflenwi'r 2 Weithdy Cyfartaledd a Chynhwysiant ym mis Mawrth. Oherwydd brigo'r Covid-19, bydd y sesiynau terfynol yn digwydd yn nes ymlaen, a byddwn yn diweddaru Clybiau Gofal Plant Allysgol Casnewydd yn gyson am hyn. Daeth cyfanswm o 8 o bobl i'r sesiwn cyntaf, a nod ac amcanion yr hyfforddiant oedd:

- Deall a diffinio Cyfartaledd, Cynhwysiant ac Amrywedd (CCA)
- Cefnogi ymwybyddiaeth o ragdybiaethau ac agweddau –personol a chymdeithasol
- Cynyddu ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth, rheoleiddiad a pholisi o gwmpas CCA
- Deall pwysigrwydd hyrwyddo Cyfartaledd ac Amrywedd mewn gwaith sy'n ymwneud â phlant a
- Deall effaith rhagfarn a chamwahaniaethu ar blant a phobl ifanc.
- Deall cynhwysiant ac arferion cynhwysol wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc.
- I allu cynllunio a darparu lleoliad chwarae cynhwysol.

## Llwyddiant o ran Ariannu

Llongyfarchiadau i KidCare4U yng Nghasnewydd, a ddaeth yn Sefydliad Elusennol Corfforedig yn y Gaeaf 2019, ac y dyfarnwyd ariannu iddynt yn ddiweddar gan Arian i Bawb i gefnogi costau staffio a rhentu am gyfnod o flwyddyn. Bydd yr arian yn galluogi'r elusen, sy''n cynnig gofal plant a thiwtora unwaith yr wythnos (ar Ddydd Sadwrn) i gynnig lleoedd wedi eu cymorthdalu a chymryd un ystafell ychwanegol.

# Hyfforddiant

## Esblygiad Chwarae

Yn y rhifyn diwethaf o'r Bont fe ysgrifennais am y Cylch chwarae a'r ymyriadau yr ydym ni fel Gweithwyr Chwarae'n eu defnyddio yn ein harferion. Ymlaen i'r rhifyn diwethaf yma o'r Bont, ac y mae'n debygol iawn nad yw llawer o Weithwyr Chwarae wedi gallu bod ynglŷn â fawr o Waith Chwarae yn ystod y ddeufis diwethaf yn sgil y sefyllfa bresennol ynghylch Covid-19, a rheoliadau'r Llywodraeth ar gadw pellter.

Mae hyn wedi gwneud i mi, a sawl un arall ym maes Gwaith Chwarae, feddwl tybed beth a fydd yn digwydd unwaith y bydd hyn i gyd drosodd a'n bod yn ceisio dychwelyd i'n bywydau arferol. Sut fydd y cyfnod afreal hwn o ansicrwydd a diflastod effeithio ar fywydau'r plant a'r bobl ifanc yr ydym yn gweithio gyda nhw, neu a ddaw'n amlwg mai nhw fydd y mwyaf cadarn a gwydn o bawb?

Mae hyn wedi fy arwain i adlewyrchu ar fy mhlentyndod fy hun, sut y mae'r byd fel y mae yn awr yn ei gwneud hi'n haws i ni gysylltu'n gyson o bell â phobl, ac mai nad dyna a fyddai'n wir o reidrwydd 25 mlynedd yn ôl petaem yn gorfod aros mewn clolawr. Hefyd, does gen i ddim o'm plentyndod a fyddai'n cymharu â'r hyn y mae'r plant a'r bobl ifanc yn mynd drwyddynt ar hyn o bryd. Iddyn nhw, daeth popeth i ben yn sydyn; dim mwy o fynd i'r ysgol, dim mwy o chwaraeon, dim mwy o glybiau, dim partïon diwedd blwyddyn, dim gweld ffrindiau na mynd allan i chwarae, dim cysgu yn nhŷ ffrind, dim dweud 'hwyl' wrth ffrindiau ac athrawon wrth iddynt drawsnewid i flwyddyn academaidd arall neu orffen ysgol yn llwyr; cymaint o'r rhain yn bethau y gallaf eu cofio'n fyw iawn wrth edrych yn ôl ar fy mhlentyndod fy hun.

Felly, mae'r holl feddwl ac adlewyrchu yma wedi fy arwain i ystyried eto ddamcaniaeth IMEE (acronym o'r penawdau Saesneg isod); mae'r ddamcaniaeth adlewyrchol hon a grëwyd gan Bob Hughes (Play Environments: A Question of Quality, 1996) yn cynnwys pedwar maen prawf:
**Greddf (Intuition)** sef sut yr ydym yn teimlo'n waelodol am blant yn chwarae gyda dŵr, tân, uchder, a rhyw, trais a theganau.
**Cof (Memory)**, ein hatgofion ein hunain o'n plentyndod o ran y lleoedd y bûm yn chwarae, pwy y buom yn chwarae â nhw, beth a wnaethom a sut roeddem, bob un, yn teimlo bod hyn wedi effeithio ar ein barn ar bethau fel Gweithwyr Chwarae.
**Profiad (Experience)** o weithio fel Gweithiwr Chwarae a rhyngweithio gyda phlant mewn ffordd di-gyfarwyddyd a di-ymyrraeth.
Tystiolaeth (Evidence) ein bod yn darllen, yn amgyffred, yn adlewyrchu, yn ystyried yn feirniadol ac yna'n defnyddio fel tystiolaeth lle bo hynny'n briodol i gyfrannu at y ddadl.

Mae IMEE wedi ei seilio ar y syniad fod angen i ni fel Gweithwyr Chwarae dynnu o'n hatgofion a'n profiadau unigol a chasgliadol, yr hyn a deimlwn, yr hyn a wyddwn - neu y credwn ein bod yn ei wybod, ein profiadau a'r hyn yr ydym wedi ei ddysgu, a hyn er mwyn creu amgylcheddau chwarae o ansawdd. Y rheswm pam fod hyn yn gosod pwysigrwydd ar ein greddf a'n cof ein hunain, yn ogystal â phrofiad a thystiolaeth, yw oherwydd bod dealltwriaeth y bydd y rhain hefyd yn fewnwelediad hollbwysig i ni i chwarae plant ac amgylcheddau chwarae. Mae IMEE yn mynd ati i'n hannog i adlewyrchu ar ein profiadau chwarae ein hunain fel plant, ac i dynnu arnynt.

Ond rwy'n teimlo bod angen i ni ychwanegu E arall i'r at y ddamcaniaeth yma, sef empathi neu emosiwn. Bydd angen i ni fod â dealltwriaeth o'n hemosiynau ein hunain ac emosiynau ein plant pan fydd hyn i gyd drosodd, a bod ag empathi o ran yr hyn y maen nhw'n mynd drwyddo, ac er y bydd rhai plant, gobeithio, wedi bod yn profi gwyliau'r ysgol 'hynod o hir', bydd yna yn ogystal blant a phobl ifanc blant a phobl ifanc a fydd wedi profi'r peth gwaetha iddyn nhw, wrth orfod aros gartref.

Pan fydd hyn drosodd, bydd gofyn i ni gefnogi ein gilydd, a'r sector, i allu cefnogi plant a phobl ifanc yn llawn drwy eu hemosiynau a'r profiadau y maen nhw wedi bod drwyddynt. Bydd gofyn iddyn nhw dynnu ar ein gwybodaeth o Waith Chwarae, a'i diweddaru, er mwyn gwneud yn sicr ein bod yn darparu amgylcheddau chwarae cyfoethocach a hyblyg a fydd yn cefnogi chwarae plant a phobl ifanc.

## Edmodo

Yma yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs rydym yn teimlo'n angerddol am ein Dysgwyr ac yn ffynnu ar eu llwyddiant hwy, felly, yn naturiol, yn ystod yr adegau anodd yma ynghylch pandemig Covid-19 rydym yn cynyddol bryderus am lwyddiant ein Dysgwyr, Felly, fel gyda'r mwyafrif o bethau, rydym yn addasu'n gadarnhaol i'r sefyllfa y cawn ein hunain ynddi, ac mae'n bleser gennym eich cyflwyno i Edmondo.

Llwyfan hyfforddi yw Edmodo, sy'n rhoi cyfle i ni fel "athrawon" a'n Dysgwyr i ryngweithio mewn un lle. Mae modd i ni anfon negeseuon, rhannu deunydd hyfforddi, gosod gwaith ac yna asesu'r gwaith; mae hyn yn golygu bod bodd cyrchu ein haddysgu/dysgu yn unrhyw le, gan roi i'n Dysgwyr yr arfau a'r gefnogaeth y maent eu hangen i barhau gyda'u cymhwyster, yn dawel eu meddwl bod Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yna'n rhoi pob cefnogaeth iddynt gan sicrhau bod pob Dysgwr unigol yn cyrraedd ei lawn botensial.

Os ydych yn ymgymryd â chymhwyster gyda ni, a heb wneud hynny eto, cofrestrwch gydag Edmondo ac ymunwch yn yr hwyl! Gofynnwch i'ch Swyddog Hyfforddi am y cod cyrchu.
www.edmodo.com

## Dathliadau lu

Hoffai Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs longyfarch yr holl Ddysgwyr sydd wedi ennill cymhwyster mewn Gwaith Chwarae. Ers y rhifyn diwethaf o'r Bont mae sawl cymhwyster wedi eu hawlio.

Llwyddodd **Angela Allen, Michelle Birchall, Jodie Bray, Helen Hughes, Owen Saunders, Sophie Clover** ac **Emma Leonard** i gyflawni eu Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae.

Llwyddodd **Brian Freeman** ac **Angharad Sully Williams** i gyflawni eu Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae.

Nid cyflawniad ardderchog i'r Dysgwyr yn unig mo hyn; y mae'n gam ymlaen i Chwarae a Gwaith Chwarae. Mae Chwarae'n bwysig o ran iechyd plant, eu llesiant a'u sgiliau yn y dyfodol; drwy chwarae gall plant ddysgu sut i gymryd risgiau, goresgyn problemau, dysgu sut i negodi yn ogystal â dysgu amdanynt eu hunain; dyma'r peth mwyaf naturiol i blentyn ei wneud. Mae chwarae wedi ei wreiddio ynddynt, rhaid i ni adael i blentyn chwarae'n rhydd; â'r ymyrraeth leiaf, os o gwbl.

Ein gwaith fel Gweithwyr Chwarae yw hwyluso Chwarae; dylem ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a mannau chwarae i adael i'r plant gymryd risgiau, herio'u hunan a gwthio'u ffiniau. Bydd hyn yn ei dro'n rhoi i'r plant y pethau y byddant eu hangen yn y byd mawr y tu allan.

Fel Gweithwyr Chwarae y mae'n rhaid i ni wneud yn sicr ein bod yn darparu amgylchedd diogel, sydd wedi ei gyfoethogi er mwyn cefnogi'r oll uchod. Rhaid i ni ymdrechu i ymdrechu i ddarparu man chwarae cydadferol lle bydd y plant yn teimlo'n ddiogel, oherwydd os nad ydynt yn teimlo'n ddiogel, ni fyddant yn chwarae'n rhydd. Rhaid i ni adlewyrchu ar ein harferion yn gyson i wneud yn sicr ein bod yn bodloni anghenion yr holl blant a'r bobl ifanc; mae hyn yn golygu parhau i wella ein harferion drwy gyrchu hyfforddiant a gwybodaeth ymarferol pellach.

Mae amrediad o gyrsiau ymarferol ar gael gennym. Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan, neu cysylltwch â'ch swyddfa leol. https://www.clybiauplantcymru.org/training-events.asp

WAW!! Am swydd bwysig sydd gennych bob un. Da iawn chi!

# Cynhadledd Genedlaethol Gwaith Chwarae 2020

Ym mis Mawrth cynhaliwyd Cynhadledd Genedlaethol Gwaith Chwarae eto eleni yn Eastbourne, ac eleni roeddwn nid yn unig yn ddigon ffodus i fod yn mynychu'r gynhadledd, ond hefyd i gael fy rhoi ar restr fer y Dyfarniad Hyfforddi a Mentora, yn rhan o'r Dyfarniadau Gwaith Chwarae Blynyddol.



Dywed Bob Hughes fod "chwarae'n rhagflaenydd hanfodol i dyfiant yr ymennydd a'r cyhyrau, ac i ddatblygiad y mapiau cortigol a allai ffurfio'n hymwybyddiaeth".

Fel arfer yr oedd dewis ardderchog o sesiynau y gellid eu mynychu yn ystod y ddau ddiwrnod, gan redeg ar 'lwybrau' gwahanol. Roedd plentyndod, rheoli darpariaeth Gwaith Chwarae, damcaniaeth ac arferion Gwaith Chwarae a dathlu Gordon yn rhai ymhlith y 10 llwybr a oedd ar gael.

"Yn rhy aml, bychanwyd chwarae fel pwnc." Penny Wilson

Mae'r gynhadledd yn rhoi cyfle i chi gamu allan o'ch cylch cynefin, adlewyrchu ar arferion a gwybodaeth, herio cysyniadau ac ystyried damcaniaethau o ongl wahanol. Yn y sesiwn cyntaf yr es iddo, fe wnes hynny yn bendant, lle y gwnaeth Vicky Edwards siarad drwy Ganfyddiad y Gweithiwr Chwarae o Griminoleg gyda ni, ac a oedd yr astudiaethau y gwnaeth eu cyflwyno i ni yn chwarae neu'n droseddau, ynghyd ag ystyried oed cyfrifoldeb troseddol.

"Mae chwarae ynglŷn â goroesi a datblygiad cyfannol, esblygiad, dysgu, catharsis, dyfeisio, darganfod, ystyr bywyd" Ali Wood a Jacky Kilvington

Roedd y gynhadledd hefyd yn gyfle i ddathlu bywydau rhai o'r damcaniaethwyr Gwaith Chwarae rhyfeddol sydd wedi marw'n ddiweddar, Gordon Sturrock, Gweithiwr Chwarae ardderchog a seicdreiddiwr a fyddai'n ysbrydoli eraill yn rheolaidd i ddarllen mwy, dysgu mwy a herio'u harferion â ffyrdd newydd o feddwl. Siaradodd Lucy Benson yn angerddol am Gordon, gan rannu rhywfaint o'u cyfathrebu dros y blynyddoedd. Gorffennodd Lucy ei sesiwn drwy ddweud bod "Gwaith Chwarae'n gosod plant yn y presennol, nid yn y dyfodol, yn ein gwreiddio ni ein hunain yn y presennol er mwyn iddyn nhw gael plentyndod rhyfeddol".



"Rydym yn datblygu sensitifrwydd dwys i bosibiliadau'r man chwarae, i ddal a chynnwys digwyddiadau presennol a phrofiadau posibl." Gordon Sturrock

Sarah Turton, Swyddog Hyfforddi



# Gofalu am Iechyd Meddyliol Plant yn ystod ac ar ôl Covid 19

Mae Covid 19 a'r pandemig byd-eang wedi newid y byd yr ydym yn byw ynddo. Wrth i ni addasu i normal newydd, tra byddwn yn Aros Gartref ac yn Cadw'n Ddiogel, mae'n bwysig ein bod yn ystyried yr effaith y mae hyn yn ei gael ar blant. Efallai y bydd rhai plant yn profi lefelau uwch o straen neu orbryder o ganlyniad i'r cyfyngiadau, a'r ansicrwydd sy'n bodoli yn sgil y Coronafeirws; rydym wedi cael golwg ar ganllawiau sydd ar-lein o ffynonellau megis Young Minds a'r GIG er mwyn ffurfio rhywfaint o arweiniad i'ch helpu chi i helpu'r plant a'r bobl ifanc yr ydych yn gyfrifol amdanynt. Mae nifer o strategaethau y gellir eu defnyddio i helpu plant i deimlo'n fwy ymlaciol, megis:

- Cyfyngu ar eu mynediad at y cyfryngau. Gallu ffocysu gormod ar y sefyllfa gam-ffurfio'r golwg a gânt o'r hyn sy'n digwydd yn y byd. Beth am newid eu ffocws a'u cael i lynu lluniau i'w hanfon i gartrefi gofal lleol i ddod â goleuni i fywyd dyddiol preswylwyr oedrannus? Gall rhoi tasg gadarnhaol i'r plentyn eu helpu i deimlo bod ganddynt rywfaint o reolaeth.
- Ystyriwch eich ymatebion eich hunain. Gall plant gael eu harwain gan yr oedolion o'u cwmpas ac mae oedolyn digynnwrf yn gymorth i blentyn ymlacio.
- Rhowch gymorth iddyn nhw gadw mewn cysylltiad â ffrindiau. Mae'n bosibl chwarae gemau fel "Carreg, Papur, Siswrn", "Darluniadur (Pictionary)" a "Stopiwch y Bws" ar-lein drwy ganiad fideo. Gall hefyd fod yn dda iddyn nhw ddim ond i rannu unwaith eto gyda'i ffrindiau.
- Ceisiwch gadw at drefn arferol. Mae trefn arferol yn gymorth i blant deimlo'n ddiogel gan ei bod yn help iddynt ragweld yr hyn y gallant ei ddisgwyl
- Cynlluniwch weithgareddau cadarnhaol. Gwnewch amser i blant chwarae; does dim rhaid i hyn fod wedi ei gynllunio; gadewch iddyn nhw fynd ynglŷn â'u diddordebau eu hunain. Gallwch hefyd gynllunio chwarae teuluol megis pobi, crefft neu adeiladu deniau.
- Mae cysgu'n dal yn bwysig. Wrth gysgu mae'r corff yn adfer ac yn tyfu; ceisiwch barhau â threfn arferol o ran cysgu ac amserau gwely penodol.
- Atgoffwch y plentyn na fydd hyn yn para am byth.
- Parhewch i wneud dewisiadau iechyd cadarnhaol; gallai hyn olygu chwarae ar drampolîn, gwneud dosbarthiadau ar-lein megis Gweithgareddau Corfforol a Dawnsio. Cadwch at ddeiet iach, rhowch fyrbrydau penodol i'r plant, rhai y gallant eu cael yn ystod y dydd, a phan fyddant wedi mynd, byddant wedi mynd. Gallech wneud hyn yn hwyl ac yn addysg: rhowch gaffi yn ei le a swm penodol o arian i'r plant brynu eu byrbrydau a'u diodydd ohono. Dylai dŵr fod yn rhad ac am ddim o hyd, a faint a fynnir ohono.
- Siaradwch â nhw. Holwch pa bethau sy'n eu poeni, a rhannwch wybodaeth priodol-i-oed â nhw.
- Cadwch lygad ar eu defnydd o'r Cyfryngau Cymdeithasol. Gall y Cyfryngau Cymdeithasol fod yn llawn Newyddion Ffug neu sylwadau negyddol; gwnewch yn siŵr eich bod yn siŵr eich bod yn gwybod beth sy'n cael ei ddweud wrth y plant a'r bobl ifanc. Siaradwch â nhw am yr hyn y maent wedi'i weld, a rhowch help iddynt herio newyddion ffug.

Gall y technegau hyn helpu, ond does dim ateb parod. Cofiwch ei bod yn iawn gofyn am help a chael cyngor. Ewch i'r gwefannau hyn am fwy o wybodaeth:

https://youngminds.org.uk/

https://www.nspcc.org.uk/keeping-children-safe/childrens-mental-health/depression-anxiety-mental-health/

https://www.nhs.uk/oneyou/every-mind-matters/coronavirus-covid-19-staying-at-home-tips/


Out of School

Yswiriant ALL-YSGOL i glybiau all-ysgol



Gostyngiad o tua 15% i aelodau Clybiau Plant Cymru Kids'

Mae yswiriant All-Ysgol wedi ei gynllunio'n arbennig i glybiau al-ysgol sy'n darparu gweithgareddau cyn ac ar ôl oriau ysgol.

Am fwy o wybodaeth ewch i
www.mortonmichel.com/outofschool
e-bostiwch
outofschool@mortonmichel.com
neu ffoniwch
020 8603 0943

Morton Michel
The Childcare Insurance Specialist

Awdurdodir a Rheoleiddir Morton Michel Cyf ('Morton Michel') gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol




# Codi Hwyl wrth Godi Arian

## Gwneud y gorau o weithio mewn partneriaeth

Mae Pandemig y Covid-19 wedi meithrin ysbryd cymunedol ardderchog a chydweithio mewn partneriaeth. Mae cydweithio da â phartneriaid o ran busnesau gofal plant bob tro wedi bod o gymorth i ansawdd a chynaliadwyedd y sector, ac mae hwn yn amser da i adlewyrchu ac ystyried gweithio â phartneriaid o'r newydd yn y tymor hirach:

• Rhwydweithiau cefnogi lleol, neu hyd yn oed weithio ar y cyd â busnesau lleol eraill Os yw'r nifer sy'n cymryd lleoedd gofal plant ar y dechrau'n is na'r arferol, a allech gydweithio â'ch gilydd, e.e. cynnig gwahanol wythnosau ar adegau gwyliau/gwahanol ddyddiau'r wythnos er mwyn i'r busnesau unigol allu gweithredu ar raddfa agosach at gapasiti llawn pan fyddant ar agor?

• Cyfuno adnoddau a chynyddu eich capasiti, megis rhannu arbenigedd rheoli, a chomisiynu hyfforddi pwrpasol ar y cyd. Gall hyn wneud mwy o ddefnydd o'ch ariannu. Gall lleoliadau hefyd weithredu fel ffrindiau allweddol i'w gilydd a rhoi cyfle ar gyfer mireinio a chanolbwyntio ar ddamcaniaeth ac arferion Gwaith Chwarae.

• Defnyddio sgiliau newydd ac arbenigedd. Y mae eisoes enghreifftiau ardderchog o berchnogion/rheolwyr gwahanol leoliadau yn darparu mentora/cefnogaeth cymheiriaid megis cefnogaeth goruchwylio ac arfarnu i'w gilydd. Hefyd, mae gan aelodau'r gymuned amrediad o sgiliau newydd ac arbenigedd y gallant eu cynnig i bwyllgorau rheoli gwirfoddol. Gallai pwyllgorau cryf â sgiliau ac arbenigedd amrywiol o bosibl reoli grŵp o leoliadau, a all roi manteision pellach megis cyfuno adnoddau a chostau i deuluoedd o ran eu dulliau o weithredu.

• Mae'r clolawr oherwydd Covid-19 wedi gweld clybiau'n dechrau'n rhoi cychwyn ar ffyrdd arloesol o gysylltu â chydweithwyr, rhieni a phlant, y gellid eu parhau yn y tymor hirach. Maent wedi defnyddio Facebook, Instagram, Youtube, Zoom/Skype ac wedi defnyddio llwyfannau megis SeeSaw i gefnogi rhieni/gofalwyr drwy syniadau, hyrwyddo chwarae a chefnogi iechyd meddyliol plant dros y cyfnod.. Gweler ein herthygl, 'Meistroli'ch Marchnata' ac amryfal enghreifftiau rhanbarthol.

• Cydweithio i fod o fudd i blant a theuluoedd sy'n mynychu mwy nag un lleoliad, gan roi cyfle am gysondeb o ran dulliau, cyngor a chefnogaeth.

• Datblygu syniadau newydd.

• Prynu gan fusnesau lleol a fyddent o bosibl yn gallu cyflenwi neu baratoi eich archeb bob wythnos.

• Gwybod nad ydych ar eich pen eich hun drwy fforymau a chyfleoedd rhwydweithio.

Dechrau ar bartneriaeth
Meddyliwch am y canlynol a rhestrwch bethau ynghylch y bartneriaeth bosibl:
• Â phwy yr hoffech weithio a sut y mae eu harbenigedd hwy'n cyfateb â'ch arbenigedd chi.
• Maint
• Ffrâm amser
• Disgwyliadau
• Bod yn rhagweithiol
• Sut y gellid rhannu rolau a chyfrifoldebau
• Esbonio'r manteision i bartneriaid posibl.

Pan fyddwch yn cyfarfod â phartneriaid posibl, byddwch yn glir ynghylch y manteision sydd ar gael iddyn nhw - yn ogystal â pham yr hoffech chi - eu cael yn rhan o'r bartneriaeth. Bydd dewis partneriaid nad yw eu buddiannau'n gwrthdaro â'ch buddiannau chi nac aelodau eraill y bartneriaeth yn osgoi gwrthdaro yn nes ymlaen.

Egwyddorion gweithio'n dda fel partneriaeth
• Dylai sefydlu'n glir nodau (yr hyn yr hoffech ei gyflawni) ac amcanion (eich camau tuag at eich nodau) fod yn sylfaen partneriaeth lwyddiannus. Mae timau da'n gweithio'n dda gyda'i gilydd pan fydd ganddynt gynlluniau da yn eu lle. Gall y nodau ac amcanion hyn fod yn wahanol i nodau amcanion unrhyw brosiect y mae'r bartneriaeth yn ei gyflawni.
• Ffurfio terfynau amser i'r cerrig milltir allweddol (y camau arwyddocaol) ac amserlen glir o bwy fydd yn gweithio tuag at y cerrig milltir hyn, a phryd. Mae angen i chi sefydlu'r rolau a chyfrifoldebau yn eich partneriaeth yn glir o'r dechrau. Os gallwch gael hyn yn ysgrifenedig yna bydd y partneriaid yn glir ar yr hyn a ddisgwylir ganddynt, a gallai arbed heriau yn nes ymlaen.
• Ar y dechrau, dylid trafod sut un a fyddai'n bartner da i ffurfio set o werthoedd a rheolau ar y cyd ar gyfer y bartneriaeth. Gallai gwerthoedd pwysig gynnwys: trin pob partner yn gyfartal; rhoi i bob partner yr amser i siarad; gwrando ar bob barn a fynegir.

Cofiwch:
• Gyfathrebu'n rheolaidd drwy sianelau o'ch dewis ac a gytunwyd rhyngoch. Ochr yn ochr â chyfarfodydd gallai hyn gynnwys galwadau ffôn wythnosol neu fisol, e-byst neu negeseuon testun. Diweddarwch bawb ag unrhyw ddatblygiadau a newidiadau yn y bartneriaeth a'i nodau.
• Monitro cynnydd yn barhaus yn erbyn nodau ac amcanion, diweddaru partneriaeth yn gyson ar eich cynnydd a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'ch cynlluniau. Mae gosod goliau a therfynau amser realistig, a gwybod pa un o'r rhain y gallwch fod yn hyblyg yn eu cylch, yn bwysig er mwyn i'ch prosiect redeg yn llyfn ac i chi gyrraedd eich cerrig milltir. Dylech hefyd ystyried opsiynau eraill pen na bai'ch syniad cyntaf yn datblygu yn ôl y disgwyl.
• Cadw cymhelliad eich partneriaid. Nid eich prosiect chi fydd blaenoriaeth eich partneriaid bob tro, ond os ydych yn gwybod y rheswm dros ymwneud eich partneriaid yna bydd modd i chi gymell eich partneriaeth yn well i gyrraedd ei nodau. Bydd parchu anghenion ac uchelgeisiau eich partneriaid, yn ogystal â pharchu gwahanol ddulliau o weithio, yn help'ch tîm i weithio'n well. Peidiwch ag anghofio i ddiolch i bobl am eu hamser a'u cyfraniadau.

### Cronfa Gymunedol Cymru y Loteri Genedlaethol

Ym mis Ebrill 2020, mae'r ddwy brif raglen – **Pawb a'i Le** ac **Arian i Bawb, y Lotri Genedlaethol** – yn dal ar agor. Blaenoriaeth y Gronfa yw sicrhau bod arian yn dal i lifo i gefnogi cymunedau sy'n gorfod addasu i heriau cynyddol **COVID-19**. Maent hefyd yn cydweithio'n agos â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac arianwyr eraill i wneud yn sicr eu bod yn rhoi'r gefnogaeth orau at ei gilydd ar gyfer cymunedau Cymru.

Maent felly'n blaenoriaethu ceisiadau gan:
1. sefydliadau sy'n cefnogi pobl mewn risg uchel o COVID-19.
2. sefydliadau sy'n cefnogi cymunedau sy'n fwyaf tebygol o wynebu galw cynyddol a heriau o ganlyniad uniongyrchol i COVID-19.
3. sefydliadau â photensial cryf i gefnogi cymunedau sy'n dioddef o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol COVID-19.

Os ydych eisoes wedi cyflwyno cais, bydd Cronfa Gymunedol Cymru y Lotri Genedlaethol yn ei asesu gan ddilyn y gweithdrefnau arferol ynghylch dod i benderfyniadau. Ond seilir y penderfyniadau ar y blaenoriaethau a osodir uchod. Cysylltwch â'r Gronfa os hoffech drafod eich cais.

**Ffôn:** 029 2168 0214
**Trosglwyddiad Testun:** 18001 plus 029 2168 0214 (i'r rhai ag amhariad clyw neu leferydd)
**Ebost:** wales@tnlcommunityfund.org.uk

### Cefnogwch Ni wrth inni'ch Cefnogi Chi!

Nid yw siopa ar-lein drwy www.easyfundraising.org.uk/clybiauplantcymrukidsclubs yn costio ceiniog yn ychwanegol, ond y mae'n caniatáu i ni dderbyn hyd at 15% o bob pryniant a wnaed o'r 400+ o siopau a restrir, gan olygu y bydd gennym fwy o arian i barhau i gefnogi clybiau megis eich clwb chi.




### e-newyddion

Fel aelod-glwb cewch afael ar ôl-rifynnau ein bwletinau e-newyddion yn ardal aelodau ein gwefan, sef www.clybiauplantcymru.org ac os oes gennym gyfeiriad ebost ar eich cyfer, anfonir rhifynnau o'r Bont i'r dyfodol atoch yn uniongyrchol. Anfonwch eich manylion ebost imembership@clybiauplantcymru.org er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn eich copi electronig.

# Prosiectau

# Burbo Bank



Hoffai Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs fanteisioar y cyfle hwn i ddiolch i gronfa gymunedol y Burbo Bank Extension am ein hariannu; o ganlyniad i dderbyn y £4,984.00 roedd modd i ni ddatblygu prosiect cyffrous ynghylch ynni adnewyddadwy.

Rhoddwyd cychwyn ar y Prosiect gyda gweledigaeth i addysgu plant a chynyddu'r ymwybyddiaeth o ynni adnewyddadwy drwy ymgysylltu â phlant drwy gyflenwi gweithgareddau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol dan anfantais yn ardaloedd cymwys i gronfa Burbo Bank. Drwy ymgysylltu, byddai gweithgareddau pellach yn cael eu datblygu.

Nod y Prosiect hwn oedd ennyn brwdfrydedd plant a lleihau'r bwlch o ran cyrhaeddiad mewn gwyddoniaeth ymhlith myfyrwyr dan anfantais economaidd a'u cyfoedion, drwy gyflenwi gweithdai Gwyddoniaeth hwyliog ac ymarferol i 3 Chlwb Gofal Plant Allysgol (tua 6 Gweithiwr Chwarae, 48 o blant). Yn ystod y gweithdai byddai'r plant yn cael eu gwahodd i ofyn cwestiynau, i ddewis o'u plith i'w datblygu'n weithgareddau/arbrofion newydd. Yna byddai'r rhain yn cael eu treialu yn eu lleoliadau (gan gyrraedd hyd at 48 o blant) a byddai adborth yn cael ei goladu a'i ddefnyddio i roi ffurf derfynol ar y gweithgareddau.

Mae'r prosiectau yn awr yn gyflawn, a derbyniodd 3 Chlwb Gofal Plant Allysgol, 1 yn y Rhyl, 1 ym Mhrestatyn ac 1 yn Sir y Fflint, gyfanswm o 6 Gweithdy Ynni Adnewyddadwy. Roedd cyfanswm o 61 o unigolion (7 Gweithiwr Chwarae a 54 o blant) yn fuddiolwyr uniongyrchol y prosiect hwn. Yn ystod y gweithdai anogwyd y plant i ofyn cwestiynau naill ai'n seiliedig ar y gweithgareddau neu ar ynni adnewyddadwy yn gyffredinol.

Ymhlith y cwestiynau a ofynnwyd yr oedd:
Pa ffrwyth neu lysiau eraill a allai greu trydan?
Os byddaf yn cyffwrdd â'r daten, a fyddaf yn cael sioc drydan?
Sut mae roced yn codi i'r awyr?
Ym mha ffyrdd eraill y gall ynni wneud i rywbeth symud?

Yna defnyddiwyd y cwestiynau hyn i ddatblygu 10 gweithgaredd hwyliog newydd a chyffrous i hyrwyddo manteision ynni adnewyddadwy. Roedd pob un o'r gweithgareddau'n seiliedig ar un o'r tair thema ynni adnewyddadwy: ynni'r haul, gwynt neu wres, gan roi syniad i'r plant o sut y mae ynni adnewyddadwy yn gweithio, a hynny mewn ffordd addas a pherthnasol iddynt.

Ymysg y gweithgareddau newydd yr oedd:
Cynheswyr Dwylo DIY
Cadwyn Ddynol
Roced Dŵr

Treialwyd y gweithgareddau newydd yn y lleoliadau, casglwyd yr adborth ynghyd ac fe'i defnyddiwyd i roi ffurf derfynol ar y gweithgareddau.
Derbyniodd pob clwb peilot focs o adnoddau i'w helpu i gyflenwi'r gweithgareddau.

Mae pob gweithgaredd wedi eu cynnwys yn ein Pecyn Parth Gwyddoniaeth, sydd ar gael i 1,547 o glybiau ar hyd a lled Cymru.

Mae'r adborth o'r Clybiau wedi bod yn gadarnhaol iawn; mae'r Gweithwyr Chwarae wedi dysgu sgiliau newydd ac mae'r plant wedi cael gwir fwynhad o gymryd rhan; dyma rai o'r sylwadau:
*"Gweithgareddau hyfryd, a wnaeth ddal sylw'r plant a gwneud iddyn nhw ofyn cwestiynau ar ynni adnewyddadwy; a phawb wedi cael llond gwlad o hwyl. Diolch!"*

*'Fe wnes i fwynhau'r sesiwn cyfan.'*
*'Roedd yr hyfforddwr yn hawdd siarad ag o, a doedd o ddim yn ofni ateb unrhyw gwestiynau a oedd gan y plant.'*
*'Roedd y cynnwys yn fy marn i yn rhagorol.'*
*'Ro'n i'n meddwl ei fod wedi ei drefnu'n dda iawn.'*
*'Fe wnaeth yr hyfforddwr esbonio'r gweithgareddau i'r plant yn dda iawn.'*
*'Cyfeillgar iawn, yn cadw diddordeb y plant, a phawb yn cael llawer o hwyl.'*
*'Fe wnaeth yr holl blant fwynhau'r hyfforddiant a roddwyd gan yr hyfforddwr.'*

*Gofynnwyd i'r plant wneud sylw ar y pethau yr oeddent wedi eu mwynhau am y gweithdai; eu hoff bethau. Dyma rai o sylwadau'r plant:*

*'Fe wnes i fwynhau chwarae â'r ceir.'*
*Roedd yn hwyl, y gorau oedd y roced, ac roedd y tiwtor yn ddoniol.'*
*'Roedd y ceir balŵn yn hwyl.'*
*'Ro'n i'n licio'r rocedi dŵr yn fwy na dim.'*
*'Ro'n i'n hoffi'r car balŵn'.*

Burbo Bank Extension Community Fund



### CAMAU – Prosiect Cymraeg Gwaith

Cyn yr angen i ohirio'r prosiect Cymraeg Gwaith, CAMAU, roeddem yn y broses o gofrestru hyd yn oed mwy o gyfranogwyr i'r cyrsiau iaith Gymraeg AM DDIM ar draws Gorllewin Cymru. Mae cyfranogwyr wedi bod ynglŷn â chwblhau asesiadau lleoliad a datblygu eu syniadau eu hunain ar sut y gallant gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn eu clybiau.

Mae'n hollbwysig nad ydym yn colli golwg ar ein nod yn y pen draw, ac yn parhau i hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru yn ystod yr adeg yma. Yn rhan o'r ymrwymiad yma mae tîm Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn dal i gyflenwi'r prosiect yma drwy ein hyrwyddiad o Ddydd Mercher Cymraeg Gwaith, ('Work Welsh Wednesday') ar Facebook.

Bob wythnos byddwn yn datblygu ac yn hyrwyddo gweithgareddau, gemau a fideos Cymraeg ac yn eu postio ar ein tudalen Facebook a'n gwefan fel y gall Gweithwyr Chwarae a theuluoedd fel ei gilydd gael mynediad at y gefnogaeth barhaus, a datblygiad yr iaith Gymraeg ar hyd a lled Cymru.


Os oes gennych unrhyw syniadau ar hyrwyddo'r iaith Gymraeg, a allai fod o fudd i Weithwyr Chwarae a theuluoedd ar hyd a lled y wlad, cofiwch gysylltu â ni ar clybiauplantcymru.org; fel arall, cofiwch ddilyn tudalen Facebook Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs am eich rhifyn wythnosol o Ddydd Mercher Cymraeg Gwaith.



UK SPACE AGENCY

### Asiantaeth Ofod y DU

Daeth ein prosiect a ariannwyd gan Asiantaeth Ofod y DU i ben yn y Gwanwyn, a'r cardiau gweithgaredd terfynol a ddatblygwyd drwy'r prosiect newydd bellach wedi eu dylunio i'w defnyddio o hyn ymlaen. Yn rhan o'r broses adrodd, fe wnaethom ysgrifennu adroddiad effaith y gallwch ddod o hyd iddo ar Dudalen Prosiectau ein gwefan, www.clybiauplantcymru.org; roedd yn cynnwys coladu ystadegau i ddangos yr effaith y mae ein hyfforddi wedi ei gael.




### Cronfa'r Degwm Sir Fynwy

Drwy ariannu o Gronfa'r Degwm, Sir Fynwy, fe wnaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs gyflenwi 2 weithdy clwb yn ystod mis Mawrth i Glybiau yn Sir Fynwy. Dewiswyd Clybiau Ôl-ysgol Goetre ac Overmonnow ar hap mewn tyniad gwobr i Aelod Glybiau'r Sir i dderbyn gweithdy Chwarae Allan Gyda'r Elfennau **am ddim**. Roedd y gweithdai'n cynnwys gweithgareddau cost isel/dim cost ynghylch yr elfennau, daear, tân, aer a dŵr, megis gwneud "peli wsh", melinau gwynt a chwarae gyda swigod. Cafodd pawb dipyn o hwyl!

#### Bagiau Cymorth Tesco Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin

Hyd yma rydym wedi cyflenwi 32 o weithdai'n hyrwyddo chwarae awyr-agored, empathi amgylcheddol a chwarae corfforol ar hyd a lled Sir Benfro (gweler ein tudalen newyddion rhanbarthol, Gorllewin Cymru). Byddwn yn ailgydio yn ein prosiect drwy gynnal aein 12 gweithdy sy'n weddill cyn gynted ag y bydd modd wedi ar ôl clolawr Covid-19.

## Sut Mae'ch Gardd yn Tyfu?

Craig Thomas, Swyddog Hyfforddi

Garddio, gwaith caled, yn mynd â thipyn o amser, a gan fod pethau'n araf yn tyfu mae'r plant yn colli diddordeb yn gyflym, ydy hynny'n gywir? **NAC YDY!**

Er mai profiad diweddar yn unig sydd gennyf o arddio – dwi wedi bod yn tyfu ffrwythau, llysiau a pherlysiau yn yr ardd a'r tŷ am 3 neu 4 blynedd yn awr, ac wedi cael rhandir am bron i flwyddyn – rwyf wedi cael bod fy mab fy hun, Dexter (sy'n 9) wedi mwynhau popeth heblaw'r gwaith caled o balu'r ardd. Unwaith y bydd yn amser plannu, mae yno i helpu: yn cloddio ffosydd, gwneud tyllau, hau hadau, dyfrhau a thrawsblannu... fe fyddwch wedi deall y sefyllfa.

Dyma'r adeg o'r flwyddyn pan fydd y rhannau hwyliog a diddorol yn dechrau! (mae'n ddiwedd mis Mawrth wrth i mi deipio).



Rydym newydd blannu ein set gyntaf o datws ar Fawrth 22nd, March, felly byddwn yn gwylio am y blagur cyntaf mewn ychydig wythnosau, ond mae brigo'r Coronafeirws yn golygu na fydd Dexter yn cael mynd i'r rhandir am y ddeufis nesaf. Er mwyn symud ymlaen, fe wnaethom dreulio amser heddiw yn trefnu rhai o'r potiau planhigion a adawyd i dyfu'n wyllt dros y gaeaf.

Dyma'r lle y gall garddio gyda phlant fod yn syml, ac yn bwysicach fyth, yn gyflym. Gyda'n lle cyfyngedig rydym am blanhigion sy'n tyfu'n gyflym ac yn rhoi tipyn i ni, felly dyma benderfynu ar letys, sbigoglys, ysgallddail (heb roi cynnig ar hwn o'r blaen) gan fod y rhain oll yn dda am barhau i dyfu, felly gallwch gasglu rhywfaint o ddail yn rheolaidd, a dylai'r planhigyn fyw am weddill y flwyddyn (gan arbed lle!). Ochr yn ochr â hyn rydym wedi plannu rhywfaint o radis a shibwns, y gellir eu casglu a'u bwyta mewn tua 4 wythnos (os torrwch y shibwns ychydig uwchben y pridd fe fyddant yn aildyfu - ond y rhannau gwyn sydd orau gen i!), felly fe fyddwn yn plannu rhagor mewn tua 2 wythnos i wneud yn sicr bod y cyflenwad yn parhau - gelwir hyn yn hau olynol.

Y cyfan a oedd ei angen arnom ar gyfer hyn yw rhywfaint o botiau planhigion, pridd a hadau - gallwn fod yn greadigol yma fel Gweithwyr Chwarae, drwy dorri tyllau yn ochr y poteli (poteli pop 2 litr, poteli llaeth 4-peint, neu gartonau sudd mawr, sydd yn arbennig o addas) i wneud ein potiau ein hunain. Ymhlith y ffynonellau eraill o botiau gwneud y mae cartonau ŵy, tiwbiau rholiau toilet a chynwysyddion prydau parod. Mae hyn wedi ei seilio ar ein prosiect 'Sut Mae'ch Gardd yn Tyfu' cychwynnol dan nawdd Bagiau Cymorth Tesco, a gyflenwyd yng Ngogledd Cymru, lle y gwnaethom weithio gyda'n Clybiau Gofal Plant Allysgol i ailddefnyddio deunydd i greu cyflenwadau



garddio, a chynnal ein prosiect dilynol dawn nawdd Cronfa Canmlwyddiant Tesco, 'Tyfu'ch Gwledd eich Hun' a oedd yn hyrwyddo tyfu cynaliadwy.

Er y gallwch dyfu llysiau mewn unrhyw fath o bridd, mae'n well i chi brynu bag o bridd os ydych yn bwriadu gwneud hyn o dan do, gan y bydd yn rhydd o bryfed. Bydd hefyd yn well os caiff y cymysgedd cywir o faetholynnau sydd eu hangen iddyt dyfu'n iach - sy'n golygu mwy o lwyddiant, yn gynt.



Rydym hefyd wedi arbrofi â gwahanol ddull o egino hadau eleni: gosod yr hadau ar bapur cegin llaith, eu rhoi mewn bocsys prydau parod â'r cloriau'n llac yn eu lle - bydd angen rhywfaint o lif awyr arnoch - a'u gadael mewn lle cynnes, ar y sil ffenest yn ein hachos ni. Mae'r canlyniadau wedi'n syfrdanu, a hadau'n egino mewn 2-3 diwrnod yn hytrach na 10-14 diwrnod os cânt eu gosod mewn pridd.
Y mae ychydig yn drafferthus i fynd ymlaen i'w plannu wedi hynny, ond byddwch o leiaf yn gwybod eu bod yn tyfu pan fyddwch yn eu plannu- bonws ychwanegol os ydych yn gwneud potiau i'r plant eu cymryd gartref.

**Plannu yn yr Haf**
Beth allwch chi barhau i'w plannu? Wel, gellir plannu'r mwyafrif o bethau cyn o leiaf ddiwedd Mehefin. Mae'n bosibl na chewch ganlyniadau perffaith os na fydd pethau'n cael digon hir i dyfu, yn enwedig rhai gwreiddlysiau, er bod moron a betys, sydd fel arfer yn cymryd tua 3 mis i dyfu, yn gallu gwneud hynny'n llwyddiannus mewn potiau. Mae pys a ffa hefyd yn tyfu'n gyflym, a gallwch daenu'r rhain ar hyd delltwaith mewn lle bychan.

Beth am roi cynnig arni, i weld beth a all dyfu. Byddai'n dda iawn gennym allu dangos rhai canlyniadau yn ein newyddlen nesaf.

***I weld mwy o syniadau ar dyfu planhigion, mynnwch olwg ar ein hadnoddau, Tyfu'ch Gwledd eich Hunan (a ariannwyd gan Ernest Cook) a'n gweithgareddau, Sut Mae'ch Gardd yn Tyfu (a ariannwyd gan Fagiau Cymorth Tesco a Darparwyr Gofal Plant Ynys Môn). Rydym hefyd yn chwilio am syniadau gennych ar gyfer ein Prosiect Canmlwyddiant Tesco a fydd yn datblygu gweithgareddau newydd i helpu plant mewn clybiau gofal plant i dyfu, cynaeafu a choginio eu gwledd ddathliadol, y gallant ei harddangos a'i rhannu gyda'u teuluoedd a'u cymunedau. Bydd y prosiect yn cael plant i gysylltu â byd natur yn yr awyr agored, gan ddysgu amrediad eang o sgiliau newydd gan wirfoddolwyr hŷn, profiadol, gan ddefnyddio dull ymarferol a chymunedol sydd yn hwyl, yn rhoi boddhad ac yn ychwanegu at lesiant pawb a fydd ynglŷn ag ef.***

# Diwrnod Cenedlaethol Chwarae 2020

Mae Diwrnod Cenedlaethol Chwarae ar Ddydd Mercher cyntaf mis Awst bob blwyddyn. Efallai y bydd Diwrnod Chwarae eleni yn wahanol iawn i'r hyn a fu mewn blynyddoedd blaenorol. Ar adeg ysgrifennu hyn, mae rhai Awdurdodau Lleol eisoes wedi canslo eu digwyddiadau ar Awst 5ed 2020 o ganlyniad i'r pandemig Covid-19. Er ei bod yn ddealladwy fod cynlluniau yn eu lle i ddiogelu cymunedau, y mae'n bwysig ein bod, fel Gweithwyr Chwarae, yn dal i rannu pwysigrwydd chwarae, ein bod yn eiriolwyr chwarae ac yn dathlu'r nifer fawr o fanteision chwarae.



Mae chwarae'n ffordd ardderchog i blant fynegi eu hunain, gollwng stêm a chael hwyl; a'r rhain oll yn llesol ac yn gwella iechyd meddyliol. Mae plant yn profi trawsnewidiadau sydyn, ynysedd cymdeithasol a chyfyngiadau, ac ofnau sy'n anodd eu deall. Mae Diwrnod Cenedlaethol Chwarae, a Chwarae yn gyffredinol, yn tynnu sylw oddi wrth y pethau hyn, ac mae hynny i'w groesawu.

Efallai eich bod yn meddwl beth tybed a ellir ei wneud. Wel, dyma'r ydym ni'n ei feddwl: beth am i ni ddathlu popeth sydd yn Chwarae a llenwi'r cyfryngau cymdeithasol ar Awst 5ed 2020 gyda delweddau o blant ynglŷn ag amryw o fathau o chwarae, gan ddefnyddio **#showusyourplay**. Anogwch deuluoedd fod yn rhan o hyn, gan rannu eu #showusyourplay eu hunain a gofynnwch iddyn nhw dagio'ch cwmni chi; bydd hyn nid yn unig yn annog chwarae gartref ond hefyd yn eich helpu i gael amcan o hoff ddewisiadau'r plant, ac yn hyrwyddo'ch cwmni.







# Paratoi am fywyd wedi Covid-19

Nid oedd brigo Covid-19 yn rhywbeth y gellid fod wedi paratoi ar ei gyfer a phrin iawn oedd dealltwriaeth ddatblygedig o'i raddfa bosibl na'i effaith ar fusnesau ar draws y byd, a hynny'n cynnwys busnesau Gofal Plant. Roedd yn ddigynsail, ac fel y cyfryw esgorodd ar yr angen am arweiniad newydd, polisïau newydd a ffyrdd newydd o weithio. Er na wyddys, ar adeg ysgrifennu'r erthygl yma, union raddfa amser y dychweliad i 'normalrwydd' mae nifer o fusnesau Gofal Plant yn debygol o fod yn meddwl am y camau nesaf pan fydd modd i Leoliadau ailagor/ymestyn i ofal plant i weithwyr nad ydynt yn allweddol.

Tra bo brigiadau heintiau ar y raddfa hon yn anodd paratoi ar eu cyfer yn llawn, efallai yr hoffech adlewyrchu ar rai elfennau o'ch busnes, er mwyn cefnogi plant, staff a'ch cymunedau, a hefyd gynyddu gwydnwch eich busnes yn y dyfodol:

- **Eich bod wedi hysbysu'r Staff sydd wedi eu rhoi ar gyfnod saib o hyn, yn ysgrifenedig** – dylid sicrhau, yn ysgrifenedig, bod y staff yn ymwybodol o'u 'dyddiad dychwelyd i'r gwaith' a'u bod wedi eu hysbysu bod eu contract presennol yn aros yn ddigyfnewid. Mewn achosion lle mae diswyddo'n angenrheidiol, mae angen gwneud hyn yn unol â'ch polisïau a'ch gweithdrefnau presennol a'r Gyfraith Gyflogaeth, ynghyd â'r cyngor sydd ar gael o ACAS.
- **Eich bod wedi hysbysu AGC eich bod yn ailagor eich gwasanaeth** – mae opsiwn hysbysu penodol ar-lein ar gyfer agor yn dilyn cau oherwydd Covid-19.
- **Adolygu'ch cynllun busnes** - yn wyneb effaith Covid-19 ar eich busnes, bydd yn hanfodol adlewyrchu ar y busnes fel y saif yn awr, y camau posibl tuag at adferiad a sut i gynyddu gwydnwch yn y dyfodol. Pan fydd modd i chi ailagor eich busnes i'r 'cyhoedd yn gyffredinol' a fydd angen gwneud hyn mewn camau er mwyn ei reoli mewn ffordd gynaliadwy? Ar faint o blant y bydd angen eich gwasanaethau, ac a oes angen i chi adolygu'ch gwariant (yn cynnwys ar staffio) i barhau'n gynaliadwy? A allwch estyn allan i'ch rhieni a'ch cymuned i achub y blaen o ran cymryd lleoedd? Sut fyddwch chi'n ailadeiladu'ch incwm os oes gostyngiad yn y nifer o blant yn bresennol (strategaeth farchnata, pwynt gwerthu unigryw, codi arian, ceisiadau am ariannu os ydych yn gymwys). Gallai'r ffordd y mae'r arweiniad/y broses o gyfnod saib yn dal i gael eu hadolygu gan Lywodraeth y DU fod â goblygiadau i'r ffordd y byddwch yn cynllunio'r camau nesaf o ran eich busnes dros y misoedd nesaf.
- **Adolygu'ch polisi ar gronfeydd a'ch rhagolwg llif arian a gweld sut y gellir ailadeiladu cronfeydd** - a oes gennych gronfeydd digonol i reoli unrhyw ostyngiad dros dro yn eich incwm, neu i reoli digwyddiadau yn y dyfodol petaent yn digwydd? Sut gallwch chi reoli'ch gwariant tra bo'ch incwm yn ailadeiladu - pa gefnogaeth ariannol sydd ar gael? Bydd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn diweddaru'r sector ar y gefnogaeth sydd ar gael drwy ein gwefan, e-byst i aelod glybiau, a thrwy ein tudalen Facebook.
- **Iechyd Meddyliol eich Staff** - does dim gwadu'r effaith seicolegol y mae brigo'r Covid-19 yn debygol o'i gael/ fod wedi ei gael ar nifer fawr iawn o bobl. Mae straen ariannol ers tro byd wedi bod yn gysylltiedig â gorbryder/iselder ysbryd, a bydd y gofynion i hunanynysu hefyd yn effeithio ar iechyd a llesiant rhai pobl. Gallai'r Ymarferwyr Gofal Plant hynny sydd wedi bod yn weithwyr allweddol yn ystod y pandemig (naill ai yn eu Lleoliad neu wrth gymryd gwaith arall/rolau gwirfoddoli) hefyd fod wedi bod yn agored i lefelau uwch nag arferol o straen a gorbryder. Mae rhai ffynonellau da iawn o gefnogaeth i'w gael ar-lein (e.e. https://mentalhealth-uk.org/) ac yn dilyn dychweliad i'r gwaith, bydd goruchwylion a chyfarfodydd tîm (a hyd yn oed ddyddiau meithrin-tîm i ffwrdd) yn hynod bwysig yn rhoi cyfle i Staff drafod eu Hiechyd Meddyliol os ydynt am wneud hynny. Os ydych yn pryderu am aelod o'ch Staff, neu'n teimlo y byddech chi fel Rheolwr yn elwa o geisio rhagor o gefnogaeth, gellir cysylltu â'r Samariaid, Mind neu Anxiety UK.
- **Iechyd Meddyliol y plant yn eich gofal** - mae plant yn wydn dros ben, ond bydd nifer fawr yn debygol o fod wedi enydau o deimlo wedi'u llethu, yn ddryslyd, trist, blin a rhwystredig …. Llu o emosiynau y gallent, neu efallai na allent, fod wedi eu cyfathrebu neu eu 'datrys'. Mae gan chwarae fanteision sylweddol i iechyd meddyliol plant, a bydd ei rôl yn dal i fod yn elfen bwysig mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol yn dilyn lledaeniad Covid-19. Adroddwyd ar y lles a ddaw o ymchwilio i emosiynau a phrofiadau drwy chwarae mewn sawl astudiaeth. Bydd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cynhyrchu ac yn rhannu adnoddau i gefnogi Iechyd Meddyliol Plant - gwyliwch ein tudalennau Facebook ac Instagram am fwy o wybodaeth.
- **Bod eich busnes wedi ei reoli mor gadarn ag y gellir:**
  1. Cyfrifoldeb Cyfyngedig i Bartneriaid/ Ymddiriedolwyr/Cyfarwyddwyr
  2. Digon o Ymddiriedolwyr sy'n weithredol ymgysylltiol
  3. Mae cefnogaeth i adolygu eich strwythur cyfreithiol a'ch llywodraethiad presennol ar gael gan eich Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant rhanbarthol.
- **Gweithio mewn Partneriaeth** - mae brigiad Covid-19 wedi arwain at enghreifftiau gwirioneddol dda o ysbryd cymunedol a gweithio mewn partneriaeth. Yn dilyn y cyfnod hwn, byddai'n wych gweld hyn yn parhau, boed drwy rwydweithiau cefnogi lleol, neu hyd yn oed weithio ar y cyd â busnesau lleol eraill - os bydd y nifer o leoedd gofal plant a gymerir yn dilyn Covid-19 yn is na'r arferol, efallai y gallech gydweithio, e.e. drwy gynnig gwahanol wythnosau i gyfnodau gwyliau / gwahanol ddyddiau o'r wythnos i ganiatáu i'r busnesau unigol weithredu yn agosach at eu capasiti llawn yn ystod y cyfnod y maent ar agor. Gwelwch ein herthygl ar weithio mewn partneriaeth.
- **Marchnata a datblygu perthnasoedd gyda defnyddwyr presennol y gwasanaeth yn ogystal â'r darparwyr posibl** - bydd bod â strategaeth farchnata effeithiol yn rhan hanfodol o'n cynllun busnes parhaus (gweler ein herthygl ar Farchnata). Bydd angen i chi hysbysu'ch cymuned ymlaen llaw o'ch cynlluniau i ailagor - cysylltwch â chyn-ddefnyddwyr y gwasanaeth a cheisiwch gyrraedd defnyddwyr posibl y gwasanaeth, a fydd arnynt efallai angen eich gwasanaethau yn awr.
- **Adolygu'r Polisi Iechyd a Hylendid** – a oes angen newid unrhyw arferion?



# Digwyddiadau Rhwydwaith Rhanbarthol y Gwanwyn ledled Cymru

Roedd yn wych cyfarfod â chi yn ein Digwyddiadau Rhwydwaith y Gwanwyn ym mis Chwefror yn **Sir Gaerfyrddin** a **Sir Ddinbych**. Roeddent yn cynnig amrywiaeth o gefnogaeth ar sut i gyflwyno Cymraeg i leoliadau chwarae, adeiladu tîm, cymhelliad, a chyflwyniadau ar sefydlu staff, ynghyd â diweddariad byr ar ddiogelu. Caiff ein digwyddiad ym Mhen-y-bont ei aildrefnu wedi codi gwaharddiadau Covid-19.

Roedd y sylwadau o'r digwyddiadau'n cynnwys: "Diolch, roedd hyn yn help mawr ac yn hwyl." "Roedd wedi ei wneud yn dda iawn am iddo fod yn rhyngweithiol; fe'n cadwodd i ymgysylltu wrth gyflwyno'r wybodaeth berthnasol."


**Roedd digwyddiadau 'Pac Offer Gwaith Chwarae (Adeiladu Llu Chwarae Cryfach) yn Sir Benfo, Rhondda Cynon Taf a Sir y Fflint** yn cynnwys gweithdai seiliedig-ar-theori ar: ACES (Profiadau Niweidiol Plentyndod); yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, y Cylch Chwarae ac Esblygiad Gwaith Chwarae. Gwnaeth y Gweithwyr Chwarae hefyd fwynhau gweithdai ymarferol: Chwarae Allan gyda'r Elfennau, Rhannau Rhydd, Ymgysylltu â Chwarae sy'n cynnwys Risg, a Dweud Stori.

Cafwyd ymgysylltu da iawn yn y digwyddiadau rhwydwaith ym mhob un o'r rhanbarthau, ac yn rhan o'r hwyl fe wnaethom gynnal cystadlaethau Facebook i gael aelodaeth am ddim "#Playworks". Roedd hwn yn gyfle arddechrog i rannu arferion da a dathlu'r hyn sy'n gwneud Gwaith Chwarae'n broffesiwn llawn boddhad. Llongyfarchiadau i'r enillwyr aelodaeth canlynol:

- Ysgol y Goedwig, Dyffryn "Gwaith Chwarae yw cael trawiad aml ar eich pen (antur!)
- Clwb Ôl-ysgol Gwynedd "Gwaith Chwarae yw gemau dryslyd gyda Dawn,
- Fiddlydee, Lardeedar"
- Golden Manor "Gwaith Chwarae yw rhoi cyfle i bob plentyn gael hwyl."
- Ymddiriedolaeth Gofalwyr Sir Gaerfyrddin, Crossroads
- Cymdeithas Pobl Ifanc a Phlant Sir Gaerfyrddin
- Clwb Ein Harglwyddes, Gwynedd

Byddai'n dda iawn gennym glywed beth yr hoffech chi ei gynnwys mewn digwyddiadau yn y dyfodol pan fyddwn yn gallu eu hailddechrau.








## Prosiect y Gronfa Gymunedol: Cysylltu a Chefnogi Clybiau a Chymunedau Gofal Plant Allysgol

Wrth i ni ysgrifennu'r rhifyn hwn o'r Bont, mae'r digwyddiadau rhwydwaith sydd i ddod, wedi eu hariannu gan ein Prosiect Cronfa Gymunedol ar gyfer tymor yr Haf a thymor yr Hydref wedi'u gohirio nes i ni wybod mwy am sefyllfa Covid-19, sy'n dal i esblygu. Rydym wedi ystyried y pethau yr oeddech chi am i ni eu cynnwys mewn digwyddiadau rhwydwaith yn y dyfodol a byddwn yn ymgynghori â chi yn y dyfodol yn wyneb newidiadau yn eich anghenion.

Yn y cyfamser rydym wedi dosbarthu'r Asesiad Gofal Plant Allysgol er mwyn cynorthwyo Clybiau i adlewyrchu ar eu gwasanaeth; gall hefyd fod yn rhan o'ch Adolygiad Ansawdd Gofal. Mae'r Adolygiad yn cynnwys cwestiynau sector-benodol ar themâu cyfreithiol/rheoleiddio, cyllid, llywodraethiad, rheoli, datblygu staff, hyfforddiant, ansawdd, marchnata a hyrwyddo. Gallwch gwblhau hyn ar-lein (https://forms.gle/AYYo6yNX6h8PXRZh7). Hefyd, bydd ein Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant yn barod iawn i'ch helpu i gwblhau'r Asesiad, all yna ffurfio Sylfaen 'Cynllun Gweithredu' i weld y newidiadau y gellid eu gwneud i wella ansawdd, cynaliadwyedd a gwytnwch eich busnes gofal plant.






# Meistrolwch eich Marchnata

Wrth galon llwyddiant unrhyw fusnes y mae strategaeth farchnata effeithiol. Mae pwysigrwydd marchnata wedi dod hyd yn oed yn gliriach yn y sefyllfa fyd-eang bresennol. Gellir defnyddio marchnata i ddenu mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth, a gall hefyd hysbysu defnyddwyr presennol a phosibl y gwasanaeth o'r hyn yr ydych yn ei wneud a'ch gwerthoedd. Gall hyn, o'i wneud yn dda, arwain at deuluoedd presennol yn cynyddu eu defnydd o'ch Clybiau Gofal Plant Allysgol, neu ddefnyddwyr newydd y gwasanaeth yn cymryd lleoedd gofal plant o'r newydd. Mae enw da yn bwysig, yn enwedig pan ddaw hi'n fater o ofal plant, a gall marchnata fod yn gymorth i gryfhau eich proffil a rhoi gwybod i rieni am y pethau yr ydych yn eu gwneud yn dda.

Bu enghreifftiau rhagorol ar hyd a lled Cymru o'r ffordd y mae Lleoliadau Gofal Plant wedi cyfathrebu gyda'u plant a'u teuluoedd yn ystod lledaeniad y Covid-19 (ar Facebook, Instagram, YouTube, Zoom/Skype a defnyddio llwyfannau megis SeeSaw). Mae nifer o ffyrdd ardderchog i ymgysylltu â defnyddwyr presennol y gwasanaeth (cynorthwyo rhieni/gofalwyr gyda'u syniadau, hyrwyddo chwarae a chefnogi iechyd meddyliol plant yn ystod cyfnod digon cythryblus). Mae'r ymgysylltu yma hefyd yn erfyn marchnata rhagorol i ddefnyddwyr gwasanaeth y dyfodol - yn aml rhennir 'newyddion da' ac enghreifftiau o arferion da ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol, neu cânt eu trafod ar lafar, sy'n erfyn marchnata rhagorol.

Mae'r ymgysylltiad yma â phlant a'u teuluoedd wedi cael derbyniad hynod o dda yn ystod lledaeniad Covid-19, ond gellid dal i ddefnyddio llawer o'r syniadau unwaith y bydd dychwelyd i 'fywyd fel ag yr oedd'.

**Dulliau Marchnata / Arfau Cyfathrebu**

1. Helfeydd sborion Facebook Live
2. Gosod sialensiau a (chelf a chrefft/rhannau rhydd/adeiladu) a gofyn i deuluoedd rannu ffotograffau o'u her gyflawn.
3. Gêm gorfforol wedi ei recordio ymlaen llaw (neu gêm fyw os ydych yn hyderus), un y mae'r plant yn hoff o'i chwarae yn eich clwb – gall Gweithiwr Chwarae ffilmio cyfarwyddiadau (neu chwarae'r gêm eu hunain gyda'u teulu!)
4. Rhannu ffotograffau/fideos o'r plant (gyda chaniatâd eu rhieni) drwy ddulliau diogel(e.e. SeeSaW/Grŵp Preifat ar Facebook) a all fod yn ffordd wych o gael y plant i gadw mewn cysylltiad/gweld wynebau cyfarwydd.
5. Dilyn tudalennau ar Facebook/Instagram sy'n seiliedig ar weithgareddau (e.e. Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs!) a rhannu syniadau/postiau yr ydych chi'n meddwl y byddai eich teuluoedd yn eu gwerthfawrogi.
6. Pan fydd eich Lleoliad ar agored, cynhaliwch (a hysbysebwch) ddyddiau digwyddiadau arbennig e.e. Diwrnod dod â Ffrind / Diwrnod Coginio / Diwrnod Gwyddoniaeth Wirion.
7. Rhannwch eich rhaglen weithgaredd - ymlaen llaw (i gynyddu nifer y lleoedd a gymerir, yn enwedig ar gyfer diwrnodau thema) a/neu postiwch weithgaredd (ffotograffau/fideos) i arddangos yr amgylchedd llawn hwyl sy'n cael ei gynnig i'r plant yn eich gofal.
8. Gallech gynnal 'Hyrwyddwr Chwarae'r Wythnos' – plentyn yn eich lleoliad sydd wedi ei enwebu am gael syniad chwarae gwirioneddol wych naill ai gartref neu yn y Clwb.

**Pwyntiau Gwerthu Unigryw**

Yn eich cyfathrebu gyda'ch cymuned, a marchnata yn gyffredinol, ceisiwch gofio(a hysbysebu) eich Pwynt(iau) Gwerthu Unigryw. A ydych yn:

1. Agor yn gynnar/hwyr i gefnogi oriau gweithio hirach?
2. A lleoliad sy'n agos i'r draffordd/y prif ffyrdd cymudo?
3. Cynnig cymorth ariannol drwy fod wedi'ch cofrestru ar gyfer cynlluniau Llywodraeth Cymru (e.e. Gofal Plant Di-dreth / Y Cynnig Gofal Plant) neu ostyngiadau i frodyr a chwiorydd?
4. A oes gennych Weithwyr Chwarae sydd â set sgiliau arbennig (e.e. siaradwyr Cymraeg / hyfforddwyr mewn chwaraeon / profiad o'r Celfyddydau Perfformio) y gallant eu cynnig i'r rhaglen weithgareddau?
5. Mynediad at fan gwych yn yr awyr agored, neu atyniadau lleol?
6. A ydych yn cael canlyniadau archwiliadau da (AGC/Iechyd yr Amgylchedd), rhai y gallech floeddio yn eu cylch?

Os nad ydych eto ar Facebook/y Cyfryngau Cymdeithasol, neu os nad ydych yn defnyddio'ch tudalennau i'w llawn botensial, dyma adeg dda i ystyried gwneud hyn. Os oes gennych gwestiynau, byddai ein tîm o Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant yn barod iawn i'w hateb.

# Cydsyniad Brenhinol i'r Bil Plant, (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn croesawu **Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)** a ddaw i rym ar **Ddydd Llun, Mawrth 21ain 2022**. Bwriad y gyfraith newydd hon yw dwyn cosbi plant yn gorfforol i ben, helpu i amddiffyneu hawliau ac adeiladu ar ymroddiad Llywodraeth Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Dywedodd Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan, a fu'n arwain ar y Bil:

"Nid oes byth reswm dros daro plentyn – efallai i hyn gael ei ystyried yn briodol yn y gorffennol, ond nid yw bellach yn dderbyniol. Mae gan ein plant yr hawl i gael eu trin â'r un parch ac urddas ag oedolion. Hoffwn ddiolch i bawb a wnaeth ymgyrchu dros y ddeddfwriaeth a hon a phawb a wnaeth ei chefnogi."

Mae cosbi plant yn gorfforol eisoes yn anghyfreithlon mewn darpariaethau gofal plant, ac mae'r newid hwn yn y gyfraith yn gymwys i unrhyw oedolyn yng Nghymru (neu sy'n ymweld â Chymru) sy'n gofalu am blant a phobl ifanc, yn cynnwys mewn lleoliadau nas rheoleiddir. O fis Mawrth 2022 ymlaen bydd gan blant yr un amddiffyniad rhag cosb gorfforol ag oedolion. Os oes pryderon am blentyn ar hyn o bryd, gall unigolyn dynnu sylw'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu at y rhain. Nid yw newid yn y gyfraith yn newid hyn. Mae Diogelu yn fater i bawb.

Bwriedir i'r Bil hwn, ynghyd ag ymgyrch codi-ymwybyddiaeth a chefnogaeth i rieni, gael yr effaith o ostwng ymhellach y defnydd a'r goddefiad o gosbi corfforol plant yng Nghymru.

**Ym mhle y gall rhieni ddod o hyd i fwy o gyngor a chefnogaeth ar fagu plant?**

- Ymwelydd iechyd neu Feddyg Teulu.
- Mae'r ymgyrch "Magu Plant, Rhowch Amser iddo", darparu cynghorion a gwybodaeth gadarnhaol ar fagu plant.
- Mae'n bosibl y bydd modd i raglenni cefnogi Llywodraeth Cymru, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yn gallu cynnig cefnogaeth a chyngor.
- Bydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn gallu dweud wrthych pa gyngor, cefnogaeth a gweithgareddau sydd ar gael yn eich ardal chi.
- Mae ymgyrch "Take 5" yr NSPCC yn darparu awgrymiadau a chynghorion i helpu rhieni aros yn ddigynnwrf mewn sefyllfaoedd heriol o ran magu plant.
- Mae Family Lives yn cynnig llinell gymorth cyfrinachol a di-dâl (o linellau tir a'r mwyafrif o ffonau symudol), (Parentline gynt). Call 0808 800 2222 am wybodaeth, cyngor, arweiniad a chefnogaeth ar unrhyw agwedd ar fagu plant a bywyd teuluol. Mae'r llinell gymorth (Saesneg) ar agor 9yb – 9yh, o Ddydd Llun i Ddydd Gwener a 10yb- 3yh ar Ddydd Sadwrn a Dydd Sul.



# AGC

## Manteision Cofrestru eich Clwb Gofal Plant Allysgol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Rydym yn ymwybodol bod 215 o Glybiau Gofal Plant Allysgol anghofrestredig ar hyd a lled Cymru. Efallai y bydd nifer o rwystrau'n eich wynebu wrth ystyried a ddylid cofrestgu darpariaeth gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC): yr amgylchedd (mae toiledau'n aml yn heriol!), goblygiadau cost cadw at y cymarebau a osodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, bod â staff addas, cymwysedig a'r baich tybiedig o waith ychwanegol (polisïau/gweithdrefnau). Ond bydd yr angen am ofal plant fforddiadwy, wedi ei gofrestru gydag AGC, hyd yn fwy hanfodol i gynorthwyo gyda'r adferiad economaidd yn dilyn haint y Covid-19. Efallai fod y cyhoeddusrwydd ynghylch gofal plant i Weithwyr Allweddol mewn Lleoliadau Gofal Plant Cofrestredig yn ystod yr haint hefyd wedi cynyddu ymwybyddiaeth mewn cymunedau o Gofrestru gydag AGC.

Mae nifer o fanteision yn dilyn cofrestru eich Clwb Gofal Plant Allysgol:

- **CEIR SICRWYDD ansawdd** Bod y Clybiau Gofal Plant Allysgol yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r **rheoliadau gofal plant**. Gall rhieni gyrchu adroddiadau archwiliadu clybiau er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus am ofal plant i'w plant.
- **OES O FANTEISION i blant** Wrth alluogi teuluoedd i weithio/hyfforddi, gall clybiau gofal plant helpu i **ryddhau teuluoedd o afael tlodi**. Mae clybiau o ansawdd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i chwarae a dysgu a gallant fod o fudd mawr i ddatblygiad plant, yn enwedig rhai o gefndiroedd dan anfantais. Dengys ein hymchwil bod manteision ychwanegol megis gwell sgiliau cymdeithasol, ymddygiad, presenoldeb yn yr ysgol a phlant yn teimlo'n hapusach yn yr ysgol.
- **FE GYNIGIR hyblygrwydd** Gall clybiau cofrestredig agor am **fwy o amser** ac ymestyn i ofal cyn-ysgol, gofal amlapiol a gofal gwyliau.
- **RHODDIR hyder** Gall ysgolion, teuluoedd a chymunedau fod yn hyderus fod gennych **glwb gofal plant sydd o ansawdd ac yn ysgogol**, gan wella **enw da** eich ysgol a denu teuluoedd newydd.
- **EFFAITH gynaliadwyol** Gall rhieni cymwys, sy'n gweithio, gyrchu **cymorth gyda ffioedd gofal plant** (e.e. Gofal Plant Di-dreth) sydd, yn ei dro, yn gymorth i gynaliadwyedd y clwb, gan roi parhad yn y gofal i deuluoedd a chymunedau.
- **STAFF hyfforddedig a chymwysedig** Bydd y staff â'r **cymwysterau** perthnasol; byddant wedi eu **hyfforddi** mewn cymorth cyntaf, hylendid bwyd a diogelu, ac wedi ymgymryd â **gwiriadau cyflogaeth trwyadl** (yn cynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) a rhaid iddynt lynu at **gymarebau staff: plentyn llym**. Mae hyn yn gwneud yn sicr fod gan glybiau staff addas i reoli clybiau gofal plant y tu allan i'r diwrnod ysgol, pan fydd aelodau eraill o'r staff dysgu efallai wedi gadael adeilad yr ysgol.
- **TALIADAU gofal plant** Mae ffioedd yn fwy fforddiadwy pan fydd clybiau cofrestredig yn gallu cynnig **Gofal Plant Di-dreth** (gostyngiad gwirioneddol o 20% yn y ffioedd), **Y Cynnig Gofal Plant** (gofal plant wedi ei ariannu i rieni plant 3-4 blwydd oed sy'n gweithio), neu'r **elfen ofal plant** o Gredydau Treth/Credydau Cynhwysol, os yw rhieni'n gymwys.
- **RHODDIR CYDNABYDDIAETH i anghenion teuluoedd**

Ers Chwefror 2020 mae modd i Ddarparwyr Gofal Plant gwblhau a chyflwyno cais i Gofrestru gydag AGC ar-lein. Mae gan brosesau AGC, gan eu bod yn rhai ar-lein, nifer o fanteision i ddarparwyr. Yn achos AGC Ar-lein, mae'r data'n **ddiogel**, ac mae'n hwyluso cyfathrebu diogel rhwng Darparwyr ac AGC. Mae prosesau ar-lein (megis cofrestru) hefyd yn golygu bod gwybodaeth yn ymddangos mewn ffordd ddeinamig, ac y mae wedi ei deilwrio ar gyfer yr unigolyn. Ar y ffurflen gofrestru bapur, roedd yn rhaid cynnwys cwestiynau perthnasol i bob math o Ddarparwr; wrth gofrestru ar-lein gweler dim ond y wybodaeth sy'n berthnasol iddyn nhw a'u strwythur cyfreithiol a rheoli. Mae hyn yn ei gwneud yn broses llawer llyfnach. Mae AGC wedi ystyried yn ofalus y mae / nad oes ei hangen gan y Rheoliadau. Felly ar y ffurflen ar-lein newydd, **dim ond y cwestiynau perthnasol a ofynnir**.

Mae'r broses ar-lein yn eich cymryd drwy adrannau sy'n cwmpasu 'Amdanoch Chi' (y person sydd wedi ei awdurdodi i lenwi'r ffurflen ar ran y sefydliad/cwmni/darparydd), manylion y sefydliad/cofrestriadau eraill/swyddogion, (os ydych yn cofrestru sefydliad), ac yna fanylion y Gwasanaeth, (manylion yr adeilad, iaith , Person(au) â Gofal, y bobl sy'n byw yn adeilad y gwasanaeth a 12 polisi a gweithdrefn allweddol). Nid yw manylion am aelodau eraill o'r staff yn awr yn ofynnol yn y cam cofrestru dechreuol, a gallwch hefyd newid manylion eich Personau hefyd atat union ddyddiad dyfarnu'r cofrestriad.

Yn wyneb y broses newydd hon sy'n addas i ddefnyddwyr, pwyswn ar bob Darparwr Anghofrestredig i ystyried cofrestru a gweld drosoch eich hunain broses a wnaed gymaint yn symlach.

Yn rhan o'n Prosiect 3-blynedd Cronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol, Pawb a'i Le, mae modd i'n Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant gefnogi Darparwyr Plant Allysgol newydd a phresennol drwy broses gofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru(AGC). Hoffem yn fawr gefnogi'ch Clwb drwy'r broses hon a byddem yn croesawu petaech yn cysylltu â'ch Swyddfa Ranbarthol i drafod hyn ymhellach, yn enwedig os ydych yn teimlo bod rhwystrau y mae angen mynd i'r afael â nhw yn dal yn eich ffordd.

Un peth pwysig yw nodi wrth gwblhau eich cofrestriad yw, oherwydd y broses ddeinamig a wnaed yn un unigolyddol, bod dewis y strwythur cyfreithiol cywir ar gyfer eich darpariaeth yn hanfodol, ac nad yw'n gam y gallwch ddychwelyd iddo. Rydym yn fwy na pharod i drafod eich strwythur cyfreithiol/strwythur cyfreithiol arfaethedig gyda chi ar ddechrau eich taith i gofrestru, er mwyn eich helpu i wneud dewis gwybodus.

# Pa mor ddiogel yw'ch Pwyllgor?

Yn yr adegau hyn sy'n llawn pryder ac yn ansicr, y peth olaf sydd ei angen arnoch fel pwyllgor yw gweld eich bod yn gyfrifol am dalu unrhyw ddyledion a ddaw i ran eich Clwb Gofal Plant Allysgol.

Fel aelod o Bwyllgor Rheoli Gwirfoddol rydych yn cyflenwi Gofal Plant Allysgol hanfodol a fforddiadwy i'ch cymunedau. Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn deall maint y gwaith yr ydych yn ei wneud a'ch ymroddiad i sicrhau bod eich Clwb Gofal Plant Allysgol yn darparu gwasanaeth gwerthfawr sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau presennol a chyfleoedd cyflogaeth.

Mae nifer o Bwyllgorau Rheoli Gwirfoddol wedi eu sefydlu fel cymdeithasau anghorfforedig. Mae hyn yn golygu y gall aelodau unigol o bwyllgorau, fel chi, fod yn **bersonol gyfrifol** am rwymedigaethau'r clwb os yw asedau'r gyfundrefn yn annigonol i warchod ei gyfrifoldebau. Ni fu hyn erioed yn fwy amlwg nag yn wyneb yr argyfwng y mae ein gwlad yn cael ei hun ynddo ar adeg ysgrifennu'r erthygl hon.

Dylai clybiau sy'n cyflogi staff, yn prydlesu eiddo ac yn dod yn rhan o gontractau eraill gyfyngu ar eu cyfrifoldeb personol a diogelu staff yn ddigonol drwy ddod yn gorfforedig. Mae gan gyfundrefn gorfforedig ei phersonoliaeth gyfreithiol ei hunan a gall, ynddi'i hun, ddod yn rhan o berthnasoedd cyfreithiol. **Rhaid** i glybiau sydd ag amcanion elusennol ac incwm uwch na'r trothwy (£5,000) gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau.

Na phoener, mae rhywbeth y gallwch ei wneud am hyn, ac mae cymorth wrth law.

Gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs helpu pwyllgorau sy'n gymdeithasau anghorfforedig i gyfyngu eu cyfrifoldeb personol drwy eu helpu i symud i strwythur sy'n cynnig mwy o warchodaeth, ac y mae'n aragymell y model, Sefydliad Elusennol Corfforedig (SEC).

**Beth yw 3 phrif fantais ddod yn Sefydliad Elusennol Corfforedig?**

1. Rydych chi, fel aelod o'r Pwyllgor, wedi'ch diogelu. Ni fydd yn rhaid i chi a'r aelodau eraill ateb unrhyw rwymedigaethau yn bersonol os yw'n methu (ac eithrio mewn achosion o ddrwgweithredu o'u rhan eu hunain).
2. Mae model y SEC yn fodel sydd wedi ei symleiddio a'i liflinio, a'r bwriad o ennill statws fel elusen ac ymgorfforiad, a bydd y Clybiau wedi eu rheoleiddio gan y Comisiwn Elusennau yn unig.
3. Mynediad at fwy o grantiau ac ariannu

Gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs roi cymorth gam wrth gam i helpu clybiau symud i'r strwythur mwy amddiffynnol hwn.

**Os ydych am fwy o warchodaeth, beth yw eich camau nesaf?**

Mae angen i chi gynnal cyfarfod gyda'ch pwyllgor. Ar adeg ysgrifennu'r erthygl yma, rydym fel cenedl yng nghyfnod y 'clolawr' ac yn cydymffurfio i 'ymbellhau cymdeithasol' ac felly nid yw'n bosibl ymgynnull yn bersonol.

Mae sawl llwyfan electronig a fyddai'n eich galluogi i gynnal cyfarfod pwyllgor 'rhithwir' i drafod p'un a ddylai'ch busnes Gofal Plant Allysgol gael ei warchod yn well.

Unwaith y bydd eich Pwyllgor yn gytûn, bydd staff Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn dal i allu'ch helpu drwy'r broses. Anfonwch e-bost i'ch swyddfa ranbarthol.

**Swyddfa Caerdydd:**
info@clybiauplantcymru.org

**Swyddfa Bae Colwyn:**
info-nw@clybiauplantcymru.org

**Swyddfa Cross Hands:**
info-ww@clybiauplantcymru.org

## A ydych yn barod am Archwiliad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)?

Mae pob Clwb Gofal Plant Allysgol cofrestredig yn cael eu harchwilio gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i sicrhau bod gofal diogel yn cael ei ddarparu, ac y cydymffurfir â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Os ydych wedi cael Archwiliad o'r blaen, mae'n bosibl y byddwch eisoes yn ymwybodol o'r mathau o bolisïau/prosesau/gweithdrefnau y bydd AGC o bosibl yn eu hadolygu. I'ch atgoffa o'r pethau y dylid eu hadolygu yn rheolaidd i sicrhau bod eich Lleoliad yn 'Barod i'w Archwilio' rydym yn cynnwys erthygl ym mhob rhifyn o'r Bont, yn cynnwys detholiad o brosesau/gweithdrefnau y gellid eu hystyried yn eich Archwiliad nesaf. Nid rhestr gyflawn mo hyn, a dylid ei hystyried ar y cyd â deddfwriaeth berthnasol, y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a dogfennau cefnogol eraill (er enghraifft ein hadnodd, "Camu Allan").

Ar adeg ysgrifennu'r erthygl yma, mae AGC wedi gohirio pob archwiliad arferol; efallai y gallwch feddwl am sut orau i baratoi, a pha bethau y dylech efallai adlewyrchu arnynt mewn pryd i'ch archwiliad nesaf.

**Llofnodion Rhieni**

Mae cyfathrebu rhwng rhieni/gofalwyr a'r Clwb yn hanfodol, a bydd AGC yn aml yn samplo Ffurflenni Contractau Rhiant/Gofalwr/Ffurflenni Cofrestru yn ystod Archwiliadau. Mae'n hollbwysig fod gennych ffurflen gyflawn i bob plentyn sy'n mynychu'ch darpariaeth, a bod rhiant/gofalwr wedi ei harwyddo. Yn y contract hwn, ne mewn cytundebau ar wahân, rhaid i chi hefyd ofyn caniatâd (drwy gyfrwng llofnodion) i wneud pethau megis rhoi eli haul ar blentyn, tynnu ffotograffau a thriniaeth feddygol brys. Os ydych, yn rhan o'ch polisïau a'ch gweithdrefnau, yn gweinyddu rhai mathau o feddyginiaeth yn ôl y gofyn, dylech hefyd fod â chofnodion meddyginiaeth wedi eu harwyddo parthed yr adegau y digwyddodd hyn. Dylech hefyd gael caniatâd rhieni o ran unrhyw dripiau a gynllunnir, a dylid cadw'r cofnodion hyn yn ffeiliau'r plant.

**Cadw Cofnodion – Staff ar Ddyletswydd**

Yn ogystal â chofrestr dyddiol ar gyfer y plant sy'n mynychu, dylai'r staff hefyd fod yn llofnodi i mewn ac allan bob sesiwn, a'r oriau y buont yn gweithio wedi'u cynnwys. Rhaid i chi wneud yn siŵr bod cymhareb o un aelod o'r staff o leiaf â thystysgrif gyfredol mewn Cymorth Cyntaf lle ceir 10 o blant yn bresennol.

**Diogelu**

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi adolygu eich Gweithdrefnau Diogelu/Amddiffyn Plant yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru (a lansiwyd ym mis Tachwedd2019). Dylech hefyd wneud yn siŵr fod eich Polisïau'n cynnwys Prevent a Chaethwasiaeth Fodern. Mae polisïau a gweithdrefnau templed, yn cynnwys rhai cysylltiedig â Diogelu, ar gael i bob aelod Glwb drwy ardal aelodaeth ein gwefan.

**Gofalu am eich iechyd meddyliol eich hun**

Rydym wedi bod yn byw mewn amserau digynsail, sydd wedi gweld pobl yn gweithio o gartref, cyfyngiadau ar yr adegau y gallant adael eu cartref, gael eu rhoi ar gyfnodau saib, cael eu diswyddo neu weithio fel gweithiwr allweddol. Wrth i mi ysgrifennu'r erthygl yma, rydym wedi cael cais i aros gartref am 3 wythnos pellach, ac mae'n aneglur pa bryd y mae hyn yn debygol o newid. Wrth i chi ddarllen hwn mae'n bosibl bod yna ofyniad yn dal arnom i aros gartref, neu efallai fod bywyd yn symud yn ôl i normalrwydd. Pa gam bynnag yr ydym arni ar y ffordd i oresgyn y pandemig, mae'n bwysig eich bod yn gwneud yn siŵr eich bod yn gofalu am eich iechyd meddyliol eich hunan. Mae nifer o bethau y gallwch eu gwneud i gefnogi'ch iechyd a'ch llesiant; dyma rai ffyrdd o ofalu amdanoch eich hun.

- Byddwch yn ddoeth yn eich defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn wych ar gyfer cadw cysylltiad â ffrindiau a'ch teulu, rhannu ffotograffau a storïau neu wylio fideos cathod doniol. Ond may angen bod yn ofalus, gan y gall y cyfryngau cymdeithasol rannu newyddion ffug, ystadegau fyddai'n achosi gofid a phryderon y mae eraill yn eu rhannu, a'r cyfan yn gallu esgor ar orbryder a golwg gwyrdroëdig ar unrhyw sefyllfa. Cyfyngwch ar eich amser ar-lein a rhowch le i chi eich hunan i ffwrdd o'r ffrydio cyson.
- Cymerwch doriadau. Os ydych yn gweithio o gartref, gwnewch yn siŵr eich bod yn cymryd toriadau ac yn diffodd eich cyfrifiadur ar eich adeg adref arferol fel nad ydych yn gorweithio eich hunan.
- Daliwch i wneud pethau. Dowch o hyd i ffyrdd hwyliog, llawn cymhelliad, o fod ynglŷn â gweithgareddau gartref. Mynnwch olwg ar YouTube lle ceir dewis o fideos yn dangos amrywiaeth eang o weithgareddau
- Cysylltwch ag eraill. Cadwch mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu; os na allwch fynd allan pam na ddefnyddiwch y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i wneud pethau tebyg gyda'ch ffrindiau a chyfathrebu fel petaech yn yr un ystafell.
- Cadwch eich meddwl yn effro. Rhowch gynnig ar gwrs ar-lein, chwarae gemau, gwneud posau neu ddarllen llyfr.
- Ymwybyddiaeth. Dechreuwch fyfyrio, lliwio neu unrhyw beth sy'n rhoi sylfaen i chi a'ch cadw yn y presennol. Mae sawl safle sydd â thasgau ymwybod er mwyn helpu i wella iechyd a llesiant.

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

## Cyfarfodydd Pwyllgor Rhithwir

Ar adeg ysgrifennu, mae'r wlad dal ar glolawr ac felly ni fydd modd i chi gynnal eich cyfarfodydd pwyllgor fel ag o'r blaen, ond byddwch yn dal angen dod i benderfyniadau.

Mae technoleg wedi symud yn ei blaen gryn dipyn yn ystod y blynyddoedd diweddar a gall pwyllgorau ei ddefnyddio i barhau i gynnal sgyrsiau a phenderfynu ynghylch eu staff a'r ddarpariaeth ofal plant.

Mae gan y Comisiwn Elusennau arweiniad ar gynnal cyfarfodydd rhithwir (https://bit.ly/2V5zitI). Mae angen i chi wirio'ch dogfen lywodraethol i weld a yw'n caniatáu i chi gynnal cyfarfodydd rhithwir(dros y ffôn neu ar-lein); os nad oes cymal yn caniatáu hyn bydd angen i chi fod wedi cofnodi cytundeb aelodau'r pwyllgor i gynnal cyfarfodydd drwy'r ffordd yma. Bydd hyn yn dangos Llywodraethiad da.

Mae sawl ap ar-lein ar gael i chi eu defnyddio; rhaid i chi ddefnyddio un sy'n hwylus i'w ddefnyddio gan bob un o aelodau'ch pwyllgor; ymhlith y rhai sydd ar gael y mae:

- Zoom (zoom.us)
- Skype (skype.com)
- FreeConference (freeconference.com)
- Google Hangouts (hangouts.google.com)
- Cisco Webex meetings (webex.com)
- 2 y byddech efallai'n gyfarwydd â nhw yw Facebook messenger a WhatsApp; mae modd gwneud galwadau fideo ar y ddau.
- Google Docs – mae hwn yn caniatáu i bawb (sydd â chaniatâd) i adolygu, cynnig sylwadau a diwygio'r un ddogfen.

Pa ap bynnag y dewiswch ei ddefnyddio, dylech bob tro wneud yn siŵr eich bod yn dilyn egwyddorion seibr da.

# Gweithgareddau

**Efallai eich bod wedi sylwi ein bod wedi dechrau defnyddio ein Cyfryngau Cymdeithasol i rannu ynghylch gweithgareddau? Os nad ydych wedi gwneud hyn, beth am ein dilyn ar Instagram i gael amrywiaeth o weithgareddau chwarae ychwanegol!**

Mae'r rhifyn hwn o'r tudalen gweithgareddau ynghylch chwilota i'r elfennau ac annog plant i ddod i wybod mwy am y byd o'u cwmpas.

## Canonau Aer

Ar gyfer y gweithgaredd yma bydd arnoch angen potel hylif golchi llestri gwag neu botel-ddiod chwaraeon, disgiau cerdyn crwn, maint darn 10c (gallech wneud y rhain drwy ddefnyddio hen focs cardfwrdd a thynnu amlinelliad o'r darn arian). Yna rhowch rai o'r disgiau yma at ei gilydd i roi rhywfaint o uchder iddynt ac ambell i rolyn papur toilet â thwll wedi ei dorri o'r gwaelod i fod yn darged i chi saethu'r disgiau i mewn. Rydym wedi darparu llun i chi weld sut i osod hyn i gyd. Nod y gêm yw sgorio cymaint o goliau â phosibl. Neu, os oes gennych ddwy botel hylif golchi llestri gallech eu chwarae yn erbyn ei gilydd i weld pwy a all chwythu cownteri'r llall oddi ar y bwrdd.

## Trysor rhew

Gweithgaredd hawdd a rhad y gellir ei greu dros nos. Cymerwch degan gwrth-ddŵr bychain a'i roi mewn powlen, balŵn neu gwpan. Llenwch â dŵr ac yna'i rewi. Gallwch wneud ychydig o'r rhain am fwy o hwyl. Y diwrnod nesaf, pan fydd wedi rhewi, heriwch y plentyn i ryddhau'r tegan gan ddefnyddio dŵr claear, halen ac arfau bychain fel morthwyl neu ddril llaw.

Cyngor Iechyd a Diogelwch: Gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos i blant sut i ddefnyddio'r arfau'n ddiogel a pheidiwch byth â gadael y plant heb oruchwyliaeth.

## Celf Natur

Gellir gwneud hyn ar gerdyn, neu'n syth ar y llawr gan fod mwd yn golchi ymaith. Dowch o hyd i ardal rydych yn fodlon i'r plant ei phalu. Rhowch botiau neu bowlenni iddyn nhw gymysgu eu paent ynddynt, rhaw i balu a jwg o ddŵr. Yna gall y plant gymysgu eu paent mwd eu hunain a dechrau creu eu dyluniad. Gellid ychwanegu dail, hadau a cherrig bychain at y dyluniad i roi gwead a lliw.

## Lluniad Cysgod

Gosodwch bapur allan yn yr ardd, rhowch wrthrych i sefyll ar y papur ac yna gwelwch y cysgod sy'n cael ei greu gan yr haul. Defnyddiwch bensel neu feiro i dynnu amlinell y cysgod. Yna gellir defnyddio hyn fel rhan ganolog darlun mwy, neu gellir ei adael am beth amser a dod yn ôl i weld sut y mae'r cysgod wedi symud.





